Arsyllfa **Wledig** Cymru
Wales **Rural** Observatory

# Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol yng Nghefn Gwlad Cymru

## Adroddiad Ymchwil 6

**Paul Milbourne a Rachel Hughes**

**Tachwedd 2005**

# Cynnwys


| | Tudalen Rhif |
|---|---|
| **Rhagymadrodd** | **3** |
| **1. Diffiniadau o dlodi ac allgáu cymdeithasol** | **4** |
| **2. Tystiolaeth o astudiaethau blaenorol o dlodi ac allgáu cymdeithasol yng nghefn gwlad** | **6** |
| **3. Amcanion a dulliau'r ymchwil** | **8** |
| **4. Derbyn budd-daliadau, pobl ar incwm isel, a diweithdra yng nghefn gwlad Cymru** | **9** |
| **5. Pobl ar incwm isel, tlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru wledig: tystiolaeth o Gam Un ymchwil Arsyllfa Wledig Cymru** | **20** |
| **6. Profiad o fyw ar incwm isel yng nghefn gwlad** | **28** |
| **7. Taclo tlodi ac allgáu cymdeithasol yng nghefn gwlad Cymru** | **38** |
| **8. Crynodeb o'r prif ddarganfyddion** | **49** |
| **Cyfeiriadau** | **53** |
| **Atodiadau** | **55** |

## Rhagymadrodd

Mae'r adroddiad hwn yn rhan o gyfres sy'n cyflwyno darganfyddion allweddol Cam Dau rhaglen waith Arsyllfa Wledig Cymru ar faterion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yng nghefn gwlad Cymru. Thema'r adroddiad yw tlodi ac allgáu cymdeithasol gwledig. Gan dynnu ar amrywiaeth mawr o dystiolaeth newydd o ran ystadegau ac ymchwil, mae'n astudio graddfa, natur a daearyddiaeth incymau isel, tlodi ac allgáu cymdeithasol yng nghefn gwlad Cymru, yn ymchwilio i'r profiad o fyw ar incwm isel yng nghefn gwlad, ac yn asesu'r ymatebion polisi cyfredol i ffurfiau gwledig ar dlodi ac allgáu yng Nghymru.

Mae i'r adroddiad wyth adran. Yn yr adran gyntaf ceir deunydd cyd-destunol ar y diffiniadau presennol o dlodi. Yn Adran Dau trafodir darganfyddion allweddol astudiaethau blaenorol o dlodi ac allgáu cymdeithasol gwledig yn y Deyrnas Unedig. Yn Adran Tri nodir amcanion a strategaeth fethodolegol yr astudiaeth. Yn Adran Pedwar ceir darlun ystadegol manwl o incwm isel a thlodi yng nghefn gwlad Cymru, a hynny ar sail dadansoddiadau o setiau data'r Cyfrifiad, setiau data'r Adran Gwaith a Phensiynau a setiau data masnachol. Yn Adran Pump cyflwynir darganfyddion arolygon diweddar o deuluoedd a chynghorau cymuned yng nghefn gwlad Cymru gan Arsyllfa Wledig Cymru, a thystiolaeth newydd o raddfa, daearyddiaethau a phroffil tlodi ac allgáu cymdeithasol yng nghefn gwlad. Yn Adran Chwech cyflwynir tystiolaeth ynghylch profiadau o dlodi yng nghefn gwlad Cymru ar sail cyfweliadau manwl â phobl sy'n byw mewn teuluoedd incwm-isel mewn dwy ardal yng nghefn gwlad Cymru. Yn Adran Saith mae sylw'r adroddiad yn symud i ymateb yr asiantaethau i dlodi ac allgáu cymdeithasol yng nghefn gwlad Cymru, a defnyddir deunydd a gafwyd o gyfweliadau â mudiadau cenedlaethol (mudiadau lles) ac awdurdodau lleol gwledig. I gloi fe geir, yn Adran Wyth orolwg o'r themâu allweddol sy'n deillio o'r astudiaeth hon o dlodi ac allgáu cymdeithasol gwledig yng nghefn gwlad Cymru.

## 1. Diffiniadau o dlodi ac allgáu cymdeithasol

Cyn tynnu sylw at y dystiolaeth o dlodi ac allgáu cymdeithasol gwledig ym Mhrydain ac yng Nghymru, mae'n fuddiol trafod y diffiniadau o'r termau hynny. Yn y llenyddiaeth academaidd a'r llenyddiaeth ar bolisi, ceir dau brif ddiffiniad o dlodi. Mae'r cyntaf yn un absoliwt ac yn seiliedig ar ddiffiniad gwrthrychol o isafswm y safon byw sy'n ofynnol i gynnal bywyd – o ran bwyd, dillad a chysgod – ac felly'n ymwneud ag anghenion biolegol a chorfforol. Yr oedd y syniad hwn o dlodi absoliwt yn ganolog i'r astudiaethau cyntaf a wnaed o dlodi yn Lloegr gan Rowntree (1901) yng Nghaerefrog a Booth (1889) yn Llundain. Wrth i safonau byw wella ac i systemau cenedlaethol o ddarpariaeth gael eu sefydlu, dechreuodd ymchwilwyr a'r llywodraeth yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif gwestiynu perthnasedd y diffiniad absoliwt o dlodi.

Ym 1979, cynigiodd yr ymchwilydd Peter Townsend (1979) gysyniad cymharol o dlodi, a bu'r cysyniad hwnnw'n hynod ddylanwadol ym maes ymchwil i dlodi ac mewn dadleuon polisi dros y tri degawd diwethaf (gweler Townsend, 1979). Dadleuodd Townsend y gellid diffinio pobl yn rhai sy'n byw mewn tlodi 'os ydynt yn brin o'r adnoddau i gael y mathau o ddiet, i gymryd rhan yn y gweithgareddau ac i fod â'r amodau byw a'r amwynderau sy'n arferol, neu a hybir neu a gymeradwyir o leiaf, yn y cymdeithasau y maent yn perthyn iddynt' (*ibid.*,31). Dangosodd ei ymchwil fod modd nodi trothwy tlodi, sef 140% o lefel budd-daliadau'r wladwriaeth. Nododd astudiaeth bellach gan Mack a Lansley (1985), a ddefnyddiodd fersiwn mwy soffistigedig o fethodoleg Townsend, drothwy tlodi tebyg o 135% o lefel yr hawl i gael budd-daliadau'r wladwriaeth.

Dros y deg mlynedd diwethaf, mae trothwyon tlodi ac incwm isel wedi'u cyfrifo ar sail ystadegau swyddogol am lefelau incwm. Mabwysiadwyd y rheiny gan lywodraethau Llafur Newydd a'r Comisiwn Ewropeaidd a chan fudiadau gwrthdlodi fel y Grwp Gweithredu ar Dlodi Plant, a diffiniwyd teuluoedd incwm-isel / tlawd yn rhai ag incwm o lai na 60% o'r lefel ganolrifol genedlaethol o incwm (heb gynnwys costau tai).

Erbyn canol y 1990au, dechreuodd canolbwynt agenda lles cymdeithasol llywodraeth Prydain ymestyn o daclo tlodi i roi sylw i allgáu cymdeithasol. Gellir cymryd bod

‘allgáu cymdeithasol’, sy’n tarddu o ddisgyrsiau ar dir mawr Ewrop ar gymdeithas a lles, yn golygu torri’r cwlwm cymdeithasol rhwng yr unigolyn a chymdeithas (Silver, 1994). Yn gynnar yn y 1990au, newidiodd y Comisiwn Ewropeaidd ei raglenni polisi lles o rai gwrthdlodi i rai a hybai gynhwysiant cymdeithasol. Ym 1997, derbyniodd llywodraeth Prydain yn ffurfiol allgáu cymdeithasol yn arf allweddol ei pholisi ar les ac fe sefydlodd hi’r Uned Allgáu Cymdeithasol i sicrhau y câi polisïau ar gynhwysiant cymdeithasol eu datblygu ledled y llywodraeth. Diffiniodd y llywodraeth ‘allgáu cymdeithasol’ fel yr amrywiaeth bras o anfanteision sy’n wynebu grwpiau tlawd. Mae academyddion wedi darparu amrywiol ddiffiniadau o allgáu cymdeithasol. Yn ôl Walker a Walker (1997, 8), er enghraifft, mae’n ‘dynamic process of being shut out, fully or partially, from any of the social, economic, political or cultural systems which determine the social integration of a person in society’, a diffiniad Room (1995, 243) o allgáu cymdeithasol yw ‘[a] process of becoming detached from the organisations and communities of which society is composed and from the rights and obligations that they embody’.

Mae ymchwilwyr wedi ceisio datblygu diffiniadau gweithrediadol o ‘allgáu cymdeithasol’ drwy ei ddadelfennu’n wahanol rannau. Yn ôl Burchardt ac eraill (1999) mae pum dimensiwn allweddol i allgáu cymdeithasol, sef treuliant, cynilion, cynhyrchu, gweithgareddau gwleidyddol a gweithgareddau cymdeithasol, tra bo Percy-Smith (2000) yn cynnig bod iddo saith prif gydran – rhai economaidd, cymdeithasol, gwleidyddol, cymdogaeth, unigol, gofodol a grwp. Efallai mai’r diffiniad mwyaf buddiol o allgáu cymdeithasol a ddatblygwyd hyd yn hyn, a’r un a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn, yw’r un a ddarparwyd gan Gordon ac eraill (2000). Ynddo, nodir pedwar prif ddimensiwn, sef tlodi neu allgáu o incwm neu adnoddau digonol; allgáu o’r farchnad lafur; allgáu o wasanaethau; ac allgáu o berthnasoedd cymdeithasol. Fel y cyfryw, felly, mae incwm isel a thlodi yn un o sawl cydran o allgáu cymdeithasol.

## 2. Tystiolaeth o astudiaethau blaenorol o dlodi ac allgáu cymdeithasol yng nghefn gwlad

Ym 1980-81 y gwnaed yr ymchwil gyntaf i dlodi gwledig ym Mhrydain, a hynny gan McLaughlin (1986). Gwnaeth yr astudiaeth honno arolwg helaeth o 876 o deuluoedd mewn pum ardal yn Lloegr wledig. Defnyddiodd McLaughlin drothwy tlodi Townsend (1979), sef teuluoedd ag incwm o lai na 140% o'u hawl i fudd-daliadau'r wladwriaeth, a chyfrif bod chwarter y teuluoedd yn ei arolwg yn byw mewn tlodi neu ar gyrion tlodi. Ail-gynhaliwyd yr arolwg gan Cloke ac eraill (1994, 1997) gan astudio nifer helaethach o ardaloedd yng Nghymru a Lloegr yn gynnar yn y 1990au. Dadlennwyd bod cyfradd o dlodi o 23% o'r teuluoedd mewn 12 o ardaloedd gwledig yn Lloegr (er bod cryn amrywiaeth o ardal i ardal), ac yn y pum ardal a gawsent eu cynnwys yn astudiaeth McLaughlin yr un oedd y gyfran o deuluoedd a oedd yn byw mewn tlodi neu ar gyrion tlodi ag a gafwyd ddeg mlynedd ynghynt. Dangosodd hynny fod tlodi yn ardaloedd gwledig Lloegr yn parhau. Yn ddiweddarach, estynnwyd ymchwil Cloke ac eraill i gefn gwlad Cymru a gwnaed arolwg o deuluoedd mewn pedair ardal wledig, sef Betws-y-coed, Pontarfynach, Dyffryn Tanad a Dyffryn Teifi. Dangosodd hwnnw fod cyfartaledd o 28% o deuluoedd yn byw mewn tlodi neu ar gyrion tlodi ar ddechrau'r 1990au (gweler Cloke ac eraill, 1997). Mae'r astudiaethau hyn hefyd yn darparu tystiolaeth am natur tlodi yng nghefn gwlad. Mae'n werth crybwyll tri phwynt yma. Yn gyntaf, yr henoed yw'r grwp mwyaf niferus o dlodion yng nghefn gwlad. Yn ail, ymhlith teuluoedd sydd heb fod yn cynnwys henoed, mae tlodi'n fwy cysylltiedig â chyflogaeth incwm-isel nag â diweithdra. Yn drydydd, mae'r mwyafrif o ymatebwyr yn yr arolygon hyn o gefn gwlad, a'r mwyafrif o ymatebwyr sy'n byw mewn teuluoedd incwm-isel, yn gwadu eu bod yn dlawd.

Mae astudiaeth fwy diweddar o dlodi ac allgáu cymdeithasol yn Lloegr wledig, a seiliwyd ar ddadansoddiad o ddata arolwg y llywodraeth o deuluoedd, yn dangos bod teuluoedd ar incwm isel yn 18% o'r boblogaeth wledig yn 2000-01 (Harrop a Palmer, 2002; gweler hefyd Chapman ac eraill, 1998). Mae'r dadansoddiad hefyd yn tynnu sylw at oroesiad incwm isel yng nghefn gwlad ac yn nodi bod 36 y cant o'r teuluoedd a oedd wedi bod ar incwm isel rhwng 1997 a 1999 wedi byw ar incwm isel ym mhob un o'r tair blynedd hynny. Mae'r ffigur hwnnw'n cymharu â 33 y cant o deuluoedd ar incwm isel mewn ardaloedd trefol. Mae'r astudiaeth yn gwahaniaethu, ac mae'n

wahaniaeth pwysig, rhwng risg incwm isel ymhlith gwahanol grwpiau o boblogaeth cefn gwlad ac arwyddocâd rhifiadol y grwpiau hynny. Ystyrir mai'r di-waith, a theuluoedd sydd heb waith, sy'n wynebu'r risg mwyaf o incwm isel. Yn y grwpiau risg-canolig mae teuluoedd sy'n cynnwys henoed, yr hunangyflogedig a gweithwyr rhan-amser, tra credir bod y rhai sy'n wynebu risg isel o incwm isel yn cynnwys teuluoedd â gweithiwr amser-llawn ynddynt. Ond nid yw proffil teuluoedd incwm-isel yng nghefn gwlad yn adlewyrchu'r lefelau hynny o risg. Y di-waith yw'r gyfran isaf o deuluoedd incwm-isel yng nghefn gwlad (7%). Teuluoedd sy'n cynnwys pobl sydd allan o waith ond heb fod yn chwilio am waith yw 20% ohonynt, a theuluoedd â henoed ynddynt yw'r gyfran fwyaf o'r boblogaeth incwm-isel (27%).

Er bod llawer wedi'i ddweud am ffurfiau gwledig ar allgáu cymdeithasol, cymharol brin yw'r dystiolaeth ddibynadwy o'i raddfa, ei natur a'i achosion ac o brofiadau ohono yng nghefn gwlad. Ceisiwyd astudio'r ffyrdd y mae tlodi materol yn cysylltu â materion ehangach anfantais yng nghefn gwlad. Aeth Cloke a Milbourne (2001), er enghraifft, ati i ail-ddadansoddi data o'r arolygon o deuluoedd gwledig yng Nghymru a Lloegr yn y 1990au cynnar i archwilio pum dimensiwn allweddol yr anfantais a wynebwyd gan y tlodion gwledig, sef treuliant, cyflogaeth, incwm, cynilion a pherthnasoedd cymdeithasol (gweler Milbourne, 2004). Mae'r dadansoddiad hwnnw'n tynnu sylw at y ffaith fod y tlodion yng nghefn gwlad yn wynebu llawer ffurf ar anfantais. Mae gwaith arall a ariannwyd gan Sefydliad Joseph Rowntree wedi astudio profiadau gwahanol agweddau ar allgáu cymdeithasol ymhlith pobl ifanc (gweler Furlong a Cartmel, 2000; Pavis ac eraill, 2000; Rugg a Jones, 1999; Storey a Brannen, 2000) mewn gwahanol rannau o Brydain wledig, tra bu i ymchwil a ariannwyd gan yr ESRC ystyried grwpiau digartref (Cloke ac eraill, 2002). Yn ogystal, mae dadansoddiadau o setiau data'r llywodraeth wedi ceisio datblygu dangosyddion dirprwyol o anfantais ac allgáu cymdeithasol (gweler Chapman ac eraill, 1998; Dunn ac eraill, 1998, Harrop a Palmer, 2002).

## 3. Amcanion a dulliau'r ymchwil

Gwnaeth Arsyllfa Wledig Cymru ag astudiaeth fawr o dlodi ac allgáu cymdeithasol yng nghefn gwlad Cymru rhwng Hydref 2004 a Gorffennaf 2005. Yr oedd tri phrif amcan i'r astudiaeth, sef:

- astudio natur ac amlder tlodi ac allgáu cymdeithasol yng nghefn gwlad Cymru
- ymchwilio i brofiadau o dlodi mewn detholiad o ardaloedd yng nghefn gwlad Cymru
- astudio'r ymatebion polisi i dlodi ac allgáu cymdeithasol yng nghefn gwlad Cymru.

Gwnaed yr ymchwil mewn pum cam:

- dadansoddiadau gofodol o ddata ar lefel y wardiau o dderbyn budd-daliadau, o ddiweithdra ac o incwm teuluoedd
- dadansoddiadau newydd o'r data a gawsai eu casglu gan arolygon *Byw a Gweithio yng Nghefn Gwlad Cymru* a *Gwasanaethau yng Nghefn Gwlad Cymru*
- cyfweliadau lled-strwythuredig â sampl o deuluoedd incwm-isel mewn dwy ardal wledig y gwnaed astudiaeth achos ohonynt
- cyfweliadau lled-strwythuredig â mudiadau cenedlaethol sy'n ymddiddori mewn materion gwrth-dlodi yng Nghymru
- cyfweliadau lled-strwythuredig â swyddogion awdurdodau lleol yng nghefn gwlad Cymru

## 4. Derbyn budd-daliadau, pobl ar incwm isel, a diweithdra yng nghefn gwlad Cymru

Derbyn budd-daliadau

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi darparu data newydd yn ddiweddar am dderbyn budd-daliadau'r wladwriaeth ar sail incwm (isel). Yn 2001, yn ôl y data hynny, yr oedd 13% o'r boblogaeth o oedran gweithio yn cael Cymhorthdal Incwm, 19% o deuluoedd yn cael Budd-dal y Dreth Gyngor, 2% o'r preswylwyr ar Lwfans Ceisio Gwaith, a 3% yn cael Credyd Treth i Deuluoedd sy'n Gweithio (Tabl 1). Mae Tabl 1 hefyd yn darparu dadansoddiad daearyddol o dderbyn budd-daliadau ar gyfer gwahanol diriogaethau gofodol ac awdurdodau lleol gwledig yn 2001. Gellir gwneud pedwar pwynt ar sail y tabl hwnnw. Yn gyntaf, mae'r gyfran o bobl yng nghefn gwlad sy'n cael y Credyd Treth i Deuluoedd sy'n Gweithio yn uwch nag yw hi mewn ardaloedd trefol. Yn ail, yr un yw'r ganran o bobl sy'n cael y Lwfans Ceisio Gwaith yng nghefn gwlad Cymru ag yn y Cymoedd. Yn drydydd, mae'r lefelau o dderbynwyr Cymhorthdal Incwm a Budd-dal y Dreth Gyngor yn is yng nghefn gwlad Cymru nag yn y Cymoedd a Chymru Drefol. Yn bedwerydd, mae i dderbyn budd-daliadau ar sail incwm isel ddaearyddiaeth bendant yng nghefn gwlad Cymru gan mai yn ardaloedd awdurdodau dwyreiniol Sir Fynwy a Phowys y ceir y cyfraddau isaf ac mai yn y parthau gorllewinol – Sir Benfro, Môn, Gwynedd a Sir Gaerfyrddin – yn ogystal â Sir Ddinbych, y ceir y cyfrannau uchaf o dderbyn budd-daliadau.

O ddadansoddi dosbarthiad gofodol derbyn budd-daliadau ar sail incwm isel ar lefel y wardiau, gwelir bod gan 78% o wardiau gwledig fwy nag 1% o bobl ar Lwfans Ceisio Gwaith yn 2001, bod gan 84% ohonynt dros 3% yn cael Cymhorthdal Incwm a bod 71% o wardiau gwledig yn cynnwys mwy na 2% o bobl sy'n cael Credyd Treth i Deuluoedd sy'n Gweithio (Tabl 2). O ran wardiau â lefelau uwch o dderbyn budd-daliadau, mae'r tabl yn dangos yn glir bod gwahaniaethau rhwng y pedwar categori gofodol. Yn achos y Lwfans Ceisio Gwaith a Chymhorthdal Incwm, yr oedd y gyfran o wardiau gwledig a gynhwysai lefelau uwch o dderbynwyr budd-daliadau[1] yn is nag yn y Cymoedd, yn uwch nag mewn Ardaloedd Eraill, ac yn debyg i'r gyfradd a gofnodwyd yn achos Ardaloedd Trefol. Yn achos y Credyd Treth i Deuluoedd sy'n Gweithio, fel arall y mae hi gan fod 7% o wardiau gwledig yn cynnwys mwy na 4% o

---

[1] Cynhwysai 38% o wardiau gwledig fwy na 2% o bobl a gâi'r Lwfans Ceisio Gwaith ac yr oedd gan yr un gyfran o wardiau gwledig fwy na 5% o bobl ar Gymhorthdal Incwm.

bobl a gâi'r budd-dal hwn yn uwch na'r cyfraddau ar gyfer y Cymoedd (2.8%) ac Ardaloedd Trefol (3.5%), ond yn is na'r ffigur ar gyfer Ardaloedd Eraill. (8.7%).

Yn Ffigurau 1 - 3 ceir dadansoddiad gofodol manylach o dderbyn budd-daliadau yng nghefn gwlad Cymru. Mae'r mapiau'n dangos yn glir bod rhaniad rhwng y dwyrain a'r gorllewin yng nghefn gwlad Cymru o ran derbyn y tri budd-dal hyn oddi wrth y wladwriaeth, a bod lefelau eu derbyn ar y cyfan yn uwch yn y gogledd-orllewin ac ar eu hisaf yn yr ardaloedd dwyreiniol (ac eithrio'r rhannau gogledd-ddwyreiniol o Sir y Fflint), Bro Morgannwg a Gwyr. Yn ogystal, ledled cefn gwlad Cymru, mae lefelau'r budd-daliadau fel petaent ar eu huchaf yn y wardiau sy'n cynnwys y trefi mwyaf. Yn Ffigur 2 y mae'r patrwm gofodol dwyrain-gorllewin mwyaf trawiadol yn amlwg, ac yno dangosir y gyfran o bobl sy'n cael y Lwfans Ceisio Gwaith. Mae'r lefelau uchel o dderbyn budd-daliadau yn amlwg yn y mwyafrif o wardiau ym Môn, gogledd-orllewin Gwynedd a de-ddwyrain Ceredigion. Mae Ffigurau 1-3 yn dangos yn glir hefyd fod gan ardaloedd yng Ngwynedd a Môn broffiliau tebyg o ran budd-daliadau i un y Cymoedd.

Tabl 1: Cyfraddau canrannol o hawlwyr budd-daliadau yn 2001, fesul awdurdod unedol gwledig[2]

| | Y Lwfans Ceisio Gwaith[3] | Cymhorthdal Incwm | Budd-dal y Dreth Gyngor | Credyd Treth i Deuluoedd sy'n Gweithio |
|---|---|---|---|---|
| Ceredigion | 1.6 | 9.6 | 15.7 | 2.2 |
| Conwy | 2.1 | 15.1 | 16.8 | 2.9 |
| Gwynedd | 2.8 | 12.6 | 12.4 | 2.9 |
| Powys | 1.4 | 9.8 | 14.2 | 2.5 |
| Sir Benfro | 2.2 | 13.7 | 20.8 | 3.1 |
| Sir Ddinbych | 1.9 | 15.5 | 19.1 | 2.7 |
| Sir Fynwy | 1.2 | 8.4 | 13.4 | 1.8 |
| Sir Gaerfyrddin | 1.9 | 14.8 | 22.1 | 2.5 |
| Ynys Môn | 3.4 | 13.7 | 35.0 | 2.8 |
| **Gwledig** | **2.0** | **12.7** | **18.5** | **2.6** |
| **Eraill[4]** | **1.6** | **11.5** | **17.8** | **2.5** |
| **Y Cymoedd[5]** | **2.0** | **16.4** | **26.2** | **2.7** |
| **Trefol[6]** | **2.3** | **14.8** | **23.0** | **2.4** |

Tabl 2: Dosbarthiad gofodol derbyn budd-daliadau, 2001

| | Hawlwyr Lwfans Ceisio Gwaith[7] | | | Hawlwyr Cymhorthdal Incwm | | | Hawlwyr Credyd Treth i Deuluoedd sy'n Gweithio | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Y cyfrannau o wardiau â:** | llai nag 1%[8] | 1 -2% | mwy na 2% | llai na 3% | 3 - 5% | mwy na 5% | llai na 2%[9] | 2 -4% | mwy na 4% |
| **Gwledig** | 22.3 | 39.6 | 38.1 | 15.7 | 46.5 | 37.8 | 28.8 | 64.2 | 7.1 |
| **Eraill** | 40.2 | 36.2 | 23.6 | 29.1 | 38.6 | 32.3 | 34.6 | 56.7 | 8.7 |
| **Y Cymoedd** | 7.8 | 44.2 | 47.9 | 8.8 | 44.2 | 47.0 | 13.8 | 83.4 | 2.8 |
| **Trefol** | 25.9 | 32.9 | 41.2 | 37.6 | 25.9 | 36.5 | 43.5 | 52.9 | 3.5 |
| **Cymru** | 21.7 | 39.6 | 38.7 | 18.0 | 42.8 | 39.2 | 27.4 | 66.7 | 5.9 |

Ffynhonnell: Yr Adran Gwaith a Phensiynau a Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog

---

2 Mynegir y cyfraddau yn achos y Lwfans Ceisio Gwaith, Cymhorthdal Incwm a'r Credyd Treth i Deuluoedd sy'n Gweithio fel canrannau o boblogaeth breswyl o oedran gweithio, a chyflwynir cyfraddau'r Budd-dal y Dreth Gyngor fel canran o'r teuluoedd preswyl.

3 Lwfans Chwilio am Waith ar sail Incwm.

4 Tiriogaethau awdurdodau lleol Bro Morgannwg, Sir y Fflint a Wrecsam.

5 Mae'r Cymoedd yn cynnwys tiriogaethau awdurdodau lleol: Blaenau Gwent, Caerffili, Castell-nedd Port Talbot, Merthyr Tudful, Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Thorfaen.

6 Tiriogaethau awdurdodau lleol Abertawe, Caerdydd a Chasnewydd.

7 Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm.

8 Ni chofnododd 7 o'r 452 o'r wardiau gwledig unrhyw hawlwyr.

9 Ni chofnododd 1 ward 'wledig' a 4 ward 'arall' unrhyw hawlwyr.

Diweithdra


Mae Cyfrifiad Poblogaeth 2001 yn dangos i 3% o'r teuluoedd yng nghefn gwlad Cymru yn 2001 gynnwys o leiaf un person a oedd yn ddi-waith, sef yr un gyfradd ag a gofnodwyd ar gyfer Cymru gyfan. Fel yn achos lefelau budd-dal ac incwm, mae rhaniad clir rhwng y gorllewin a'r dwyrain o ran cyfraddau diweithdra gan mai Gwynedd, Môn a Sir Benfro sydd â'r tiriogaethau lle cofnodwyd y rhai uchaf, a Sir Fynwy a Phowys sydd â'r cyfraddau isaf. Yn Ffigur 4 ceir dadansoddiad gofodol manylach o'r cyfraddau diweithdra. Ym Môn a'r rhannau gogledd-orllewinol o Wynedd y ceir clystyrau o wardiau gwledig lle mae diweithdra'n uchel, er bod wardiau o'r fath hefyd i'w cael yn ardaloedd deheuol Ceredigion a Sir Benfro ac ar hyd glannau'r Gogledd. Yma eto, mae'n amlwg bod proffil diweithdra mewn rhannau o Fôn a Gwynedd yn debyg iawn i'r hyn a gofnodwyd yn y Cymoedd.

Incwm teuluoedd


O ddadansoddi data CACI am incymau lleol, gwelir mai cymedr yr incwm blynyddol a enillwyd gan deuluoedd yng nghefn gwlad Cymru oedd £24,065 yn 2003, sef ffigur a oedd yn is na'r cyfartaleddau ar gyfer Cymru gyfan (£25,103), Ardaloedd Trefol (£27,012) ac Ardaloedd Eraill (£27,902) yng Nghymru, ond yn uwch na'r ffigur a gofnodwyd yn achos ardaloedd yn y Cymoedd (£23,631) (Tabl 2). Sir Fynwy oedd â'r cymedr uchaf o incwm blynyddol teuluoedd (£30,510) o'r holl awdurdodau gwledig a Chymru gyfan yn 2003. Cymharol ychydig o amrywiaeth sydd yng ngraddfa incymau teuluoedd yn nhiriogaethau'r awdurdodau gwledig eraill. Amrywiant o £22,345 yng Ngwynedd i £24,268 yn Sir Ddinbych. Yn nhiriogaethau pedwar awdurdod gwledig - Sir Gaerfyrddin, Môn, Sir Benfro a Gwynedd – yr oedd cymedr incwm blynyddol y teuluoedd ynddynt yn 2003 islaw'r cyfartaledd ar gyfer tiriogaethau awdurdodau'r Cymoedd.

Yn Ffigur 5 dangosir dosbarthiad cymedr yr incwm blynyddol a enillwyd gan deuluoedd, a hynny fesul ward. Y duedd yw i'r wardiau gwledig lle ceir y teuluoedd â'r incymau blynyddol uchaf fod yn y gogledd ddwyrain a'r de ddwyrain ac ym Mro Morgannwg, a cheir pocedi o deuluoedd ag incymau uchel ym Mhenrhyn Gwyr a rhannau o Sir Benfro a Gwynedd hefyd. Mae'r wardiau gwledig lle ceir teuluoedd â'r incymau blynyddol isaf i'w cael yn bennaf yng Ngwynedd, er bod clystyrau bach o wardiau incwm-isel i'w cael ym Môn a Sir Benfro.


**Ffigur 1**
**Canran o deuluoedd sy'n hawlio Cymorthdal Incwm yn 2001, ar lefel wardiau**





**Ffigur 2**
**Canran teuluowedd sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm yn 2001, ar lefel wardiau**



**Figur 3**
**Canran o teuluoedd sy'n hawlio Credyd Treth i Deuluoedd sy'n gweithio yn 2001, ar lefel wardiau.**




**Figur 4**
**Canran teulueodd diwaith yn 2001, ar lefel wardiau.**




Tabl 2: Cyfartaledd incwm blynyddol teuluoedd yn 2003 fesul awdurdod unedol gwledig

| | **Cymedr (£)** |
|---|---|
| Sir Fynwy | 30510 |
| Sir Ddinbych | 24268 |
| Ceredigion | 24142 |
| Powys | 24133 |
| Conwy | 23924 |
| Sir Gaerfyrddin | 23309 |
| Ynys Môn | 23255 |
| Sir Benfro | 22894 |
| Gwynedd | 22345 |
| | |
| **Gwledig** | 24065 |
| **Eraill** | 27902 |
| **Trefol** | 27012 |
| **Y Cymoedd** | 23631 |
| **Cymru** | **25102** |

Ffynhonnell: CACI, 2003

**Figur 5**

**Incwm cymedr blynyddol teuluoeddi yn 2003, ar lefel wardiau**




*Ffynhonell: CACI 2003*

Arsyllfa **Wledig** Cymru
Wales **Rural** Observatory

Yn Nhabl 3 ceir data am deuluoedd incwm-isel yn nhiriogaethau awdurdodau lleol gwledig yn 2003. Mae trothwy o £10,000 y flwyddyn wedi'i bennu'n 'incwm isel' gan mai dyna'r band incwm agosaf a ddarparwyd gan CACI i 60% o ganolrif cenedlaethol (Cymru) y ffigur am incwm (£17,463 yn 2003). Yr oedd rhyw un o bob pum teulu yng nghefn gwlad Cymru ar incwm isel yn 2003, ffigur sy'n uwch o ychydig bach na'r cyfartaledd Cymru-gyfan a'r cyfartaleddau 'Trefol', a chryn dipyn yn uwch na'r cymedr ar gyfer yr ardaloedd 'Eraill'. Dim ond yn y 'Cymoedd' yr oedd y gyfran o deuluoedd incwm-isel yn is (sef 21%) na'r cyfartaledd yn yr ardaloedd 'Gwledig' yn 2003.


Yng nghefn gwlad Cymru, yr oedd y gyfran uchaf o deuluoedd incwm-isel yn 2003 yn nhiriogaethau pedwar awdurdod lleol y gogledd-orllewin a'r de-orllewin lle cofnodwyd y cyfartaledd isaf o incwm yn Nhabl 2. Yng Ngwynedd yr oedd ychydig o dan 22% o deuluoedd ar incwm isel, a rhyw 21% ar incwm isel yn Sir Gaerfyrddin, Ynys Môn a Sir Benfro. Yn fwy cyffredinol, yr oedd o leiaf un o bob pump o deuluoedd yn saith o'r naw o diriogaethau awdurdodau lleol gwledig ar incwm isel, a hyd yn oed yn Sir Fynwy, lle cofnodwyd y cyfartaledd uchaf yng Nghymru o incwm teuluoedd yn 2003, yr oedd y gyfran o deuluoedd incwm-isel bron yn 15%. Mae dosbarthiad gofodol teuluoedd incwm-isel ar lefel y ward i'w weld yn Ffigur 6, sef mai mewn rhannau helaeth o Wynedd ac Ynys Môn, ardaloedd deheuol Ceredigion, Siroedd Caerfyrddin a Phenfro ac ar hyd arfordir y Gogledd y mae'r cyfrannau uchaf o deuluoedd incwm-isel i'w cael. Mae'r map hefyd yn dangos yn glir bod graddfa incwm isel yn yr ardaloedd hynny yng nghefn gwlad Cymru yn debyg i'r hyn a gofnodwyd mewn rhannau helaeth o'r Cymoedd.

Tabl 3: Cyfran y teuluoedd ag incwm blynyddol o lai na £10,000 yn 2003, fesul awdurdod unedol gwledig

| | |
|---|---|
| | |
| Gwynedd | 21.7% |
| Sir Gaerfyrddin | 21.0% |
| Ynys Môn | 20.8% |
| Sir Benfro | 20.5% |
| Sir Ddinbych | 20.1% |
| Ceredigion | 20.0% |
| Conwy | 19.9% |
| Powys | 18.0% |
| Sir Fynwy | 14.7% |
| | |
| **Gwledig** | **19.8%** |
| **Eraill** | **16.1%** |
| **Trefol** | **19.5%** |
| **Y Cymoedd** | **21.3%** |
| **Cymru** | **19.5%** |

Ffynhonnell: CACI (2003)

**Figur 6: Canran teuluoedd sydd âg incwm blynyddol o dan £10,000 yng Nghyru yn 2003, ar lefel wardiau.**




*Ffynhonell: CACI 2003*

Arsyllfa **Wledig** Cymru
Wales **Rural** Observatory

Yn 2004, cynhaliodd Arsyllfa Wledig Cymru ddau brif arolwg yng nghefn gwlad Cymru sy'n berthnasol i'r astudiaeth hon o dlodi ac allgáu cymdeithasol gwledig. Y cyntaf ohonynt oedd *Byw a Gweithio yng Nghefn Gwlad Cymru*, a gynhwysai gyfweliadau â sampl gynrychioliadol o 4,023 o deuluoedd yng nghefn gwlad Cymru ym Mawrth ac Ebrill 2004. Casglodd yr arolwg wybodaeth ar amrywiaeth o themâu, gan gynnwys cyflogaeth, tai, gwasanaethau, incwm, cyfalaf cymdeithasol, cyfranogiad dinesig, tlodi ac allgáu cymdeithasol. Canolbwyntiodd yr ail arolwg ar y ddarpariaeth o wasanaethau yng nghefn gwlad Cymru, a chasglwyd data am ddarparu gwasanaethau cyngor lles a chymorth. Yn yr adran hon o'r adroddiad, fe ddefnyddir data o'r ddau arolwg i lunio darlun manwl o natur a hyd a lled incwm isel, tlodi ac allgáu cymdeithasol yng nghefn gwlad Cymru. Categorïad pedwarplyg Gordon ac eraill (2000) o allgáu cymdeithasol - sef tlodi, allgáu o'r farchnad lafur, allgáu o wasanaethau, allgáu o berthnasoedd cymdeithasol - a ddefnyddir yn fframwaith ar gyfer dadansoddi a chyflwyno data'r ddau arolwg.

<u>Incwm isel a thlodi</u>

Mae'r teuluoedd incwm-isel yn ein harolwg wedi'u diffinio fel y rhai sy'n ennill llai na £10,000 (gros) y flwyddyn[10] (y trothwy incwm agosaf a ddefnyddir yn yr arolwg i'r mesur swyddogol hwn o incwm isel). O'r teuluoedd a roddodd wybodaeth am eu hincwm, yr oedd gan 25% ohonynt incwm islaw'r trothwy hwnnw (Tabl 4). Mewn 10 o'r 12 o diriogaethau awdurdodau gwledig a gynhwyswyd yn yr arolwg, yr oedd gan dros 20% o'r teuluoedd incwm o lai na £10,000 y flwyddyn. Cofnodwyd y cyfrannau uchaf o deuluoedd incwm-isel yng Ngwynedd (27%), Sir Ddinbych (27%) a Sir Benfro (27%). Yn Sir Fynwy (17%) a Bro Morgannwg[11] (18%) yr oedd y canrannau isaf o deuluoedd o'r fath.

O fesur y mathau o anheddiad y mae teuluoedd incwm-isel yn byw ynddynt, yr oedd 39% ohonynt yn preswylio mewn trefi, 45% mewn pentrefi a'r gweddill o 16% o deuluoedd yn byw mewn pentrefi bach iawn neu yn y wlad agored.

[10] Incwm o bob ffynhonnell.
[11] Cynhwyswyd ardaloedd gwledig ym Mro Morgannwg a Sir y Fflint yn yr arolwg o deuluoedd (gweler Arsyllfa Wledig Cymru (2005)).

Tabl 4: Cyfran y teuluoedd ag incwm blynyddol o dan £10,000, fesul awdurdod unedol gwledig, 2004

| | |
|---|---|
| | |
| Gwynedd | 27.2% |
| Sir Dinbych | 27.0% |
| Sir Benfro | 26.9% |
| Sir Gaerfyrddin | 26.5% |
| Conwy | 26.0% |
| Ynys Môn | 24.7% |
| Ceredigion | 22.8% |
| Powys | 22.8% |
| Sir y Fflint | 20.3% |
| Bro Morgannwg | 17.5% |
| Sir Fynwy | 16.5% |
| | |
| **Cyfartaledd cefn gwlad Cymru** | **24.8%** |

Ffynhonnell: Arolwg o Deuluoedd sy'n Byw a Gweithio yng Nghefn Gwlad Cymru, 2004

Person henoed sydd fwyaf tebygol o arwain teuluoedd incwm-isel. Mae 36% o'r ymatebwyr mewn teuluoedd incwm-isel yn 65 oed neu'n hyn, o'i gymharu â 21% ar gyfer holl deuluoedd cefn gwlad Cymru. Yr oedd 28% arall o'r ymatebwyr o deuluoedd incwm-isel yn 55–64 oed (23% yw'r ffigur Cymru-gyfan). Ar y llaw arall, arweinid cyfran is o deuluoedd incwm-isel gan berson ifanc – cynhwysai 11% ohonynt ymatebydd 16–34 oed, o'i gymharu ag 16% o'r holl deuluoedd gwledig.

I bob golwg, does fawr o wahaniaeth rhwng teuluoedd incwm-isel a'r holl deuluoedd o ran hyd eu preswylio. Yr oedd bron dau o bob tri ym mhob grwp yn preswylio yn eu heiddo ers pum mlynedd o leiaf, ond yr oedd cyfran uwch o deuluoedd incwm-isel (33%, o'i gymharu â 25% o'r holl deuluoedd) yn byw yn eu heiddo ers 20 mlynedd a rhagor.

Perchen-feddianwyr oedd bron dau o bob tri o deuluoedd incwm-isel (65%). Yr oedd 48% yn llwyr berchen ar eu heiddo ac 17% yn berchen arno drwy forgais. Er bod

cyfradd y berchen-feddiannaeth ymhlith yr holl deuluoedd yn uwch (sef 82%), yr oedd y gyfran o deuluoedd incwm-isel a oedd yn llwyr berchen ar eu heiddo ychydig yn uwch ymhlith teuluoedd incwm-isel (48% o'i gymharu â 42%). Nid oedd sector y rhentu cymdeithasol yn cyfrif ond am 21% o deuluoedd incwm-isel, er bod hynny'n uwch na'r ffigur ar gyfer yr holl deuluoedd (9%). Yr oedd 13% arall o deuluoedd incwm-isel yn byw yn y sector rhentu preifat, o'i gymharu ag 8% o'r holl deuluoedd. Nid yw'n syndod bod yr amcangyfrifon o werth eiddo a berchen-feddiennid yn is ymhlith y sampl incwm-isel – amcangyfrifodd 43% o'r ymatebwyr mewn teuluoedd incwm-isel a oedd yn berchen ar eiddo fod eu heiddo'n werth llai na £100,000, ffigur sy'n uwch o lawer na'r hyn a gofnodwyd yn achos yr holl deuluoedd (24%). Ar y llaw arall, yr oedd y gyfran o'r holl ymatebwyr a amcangyfrifodd y câi eu heiddo'i brisio'n fwy na £200,000 yn ddwbl y gyfran o ymatebwyr incwm-isel (28% ac 14% yn y drefn honno).

O ddadansoddi'r gwahanol fathau o incwm a gaiff teuluoedd incwm-isel, yr oedd eu chwarter yn cael budd-daliadau'r wladwriaeth, megis Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith neu Fudd-dal Analluedd, sef bron dwbl cyfradd derbyn budd-daliadau ymysg y sampl gyffredinol (13%). Câi 25% o deuluoedd incwm-isel, o'i gymharu â 34% o'r holl deuluoedd, log o gyfrif banc neu gyfrif cymdeithas adeiladu.

Yr oedd gan y mwyafrif llethol o ymatebwyr mewn teuluoedd incwm-isel gymwysterau addysgol neu alwedigaethol, er bod y ganran o ymatebwyr heb unrhyw gymhwyster o'r fath (34%) yn uwch nag yn achos yr holl deuluoedd (18%). Yn yr un modd, er nad oedd ond 32% o deuluoedd incwm-isel yn berchen ar gerbyd preifat, mae'r ffigur hwnnw bron deirgwaith yr un a gofnodwyd yn achos y sampl gyffredinol (11%). At hynny, nid oedd modd i bob aelod o deuluoedd incwm-isel a oedd yn berchen ar gar ddefnyddio car bob adeg o'r dydd neu'r wythnos.

Mae darganfyddion yr arolwg yn dangos bod cysylltiadau rhwng incwm isel ac iechyd gwael yng nghefn gwlad Cymru. Dywedodd 38% o'r ymatebwyr mewn teuluoedd incwm-isel fod salwch cyfyngus a hirhoedlog arnynt, ac yr oedd honno'n lefel uwch o lawer nag yn achos yr holl ymatebwyr (23%). Ond o gofio bod y tlodion gwledig gan amlaf yn hŷn, bydd gofyn dadansoddi rhagor ar y data i gymharu cyflyrau iechyd gwahanol garfannau oedran o ymatebwyr incwm-isel a'r holl ymatebwyr.

Yn olaf, ymchwiliodd yr arolwg i ganfyddiadau'r ymatebwyr o dlodi yn eu hardaloedd lleol. Fel yn achos astudiaethau eraill o dlodi gwledig (gweler Cloke ac eraill, 1994, 1997), mae'n hymchwil yn dangos nid yn unig bod lefel isel o gydnabod tlodi ymhlith ymatebwyr mewn teuluoedd incwm-isel (41% o'r ymatebwyr) ond bod y lefel honno o gydnabyddiaeth yn is mewn gwirionedd na'r hyn a gofnodwyd yn achos ymatebwyr mewn teuluoedd incwm-uchel – cydnabuwyd bod tlodi lleol yn bod gan 45% o'r rhai mewn teuluoedd ag incwm o £31,000 y flwyddyn o leiaf.

<u>Cyflogaeth</u>

O gofio proffil oedran yr ymatebwyr mewn teuluoedd incwm-isel, go brin ei bod hi'n syndod gweld nad oedd 71% o bobl yn y teuluoedd hynny'n economaidd weithgar. Mae'r ffigur hwnnw'n uwch o lawer na'r hyn a gofnodwyd yn achos yr holl deuluoedd (42%). Y prif resymau dros segurdod economaidd ymhlith teuluoedd incwm-isel oedd ymddeoliad (a gyfrifai am 60% o aelodau'r teuluoedd), salwch neu anabledd tymor-hir (14%) a diweithdra (10%).

Yr oedd rhyw hanner y bobl mewn gwaith mewn teuluoedd incwm-isel yn ymwneud â chyflogaeth amser-llawn ac yn cael cyflog (52%), 29% ohonynt mewn swyddi rhan-amser, ac 20% yn hunangyflogedig. Mae gweithwyr incwm-isel yn fwy tebyg o gael eu cyflogi mewn cwmnïau bach yn y sector preifat gan fod bron hanner y gweithwyr o ymatebwyr mewn teuluoedd incwm-isel (49%) yn gweithio i gwmnïau preifat a gyflogai lai na 25 o bobl, o'i gymharu â 33% ar gyfer y sampl gyfan. Ar y llaw arall, fe dan-gynrychiolir gweithwyr incwm-isel yng nghwmnïau mawr y sector preifat[12] (15% o'i gymharu ag 20% ar gyfer yr holl weithwyr) ac, yn arbennig, mewn sefydliadau yn y sector cyhoeddus, sy'n cyfrif am 18% o weithwyr incwm-isel ond 30% o'r holl bobl sydd mewn gwaith. Yr oedd rhyw un o bob deg teulu a oedd yn gweithio (11%) yn cynnwys o leiaf un person a oedd â mwy nag un swydd. Yr oedd y gyfran hon yn union yr un fath â'r hyn a welwyd yn achos teuluoedd incwm-isel sy'n gweithio.

[12] Cwmnïau sy'n cyflogi dros 100 o bobl.

Saith categori o gyflogaeth sy'n cyfrif am ryw dri-chwarter yr holl weithwyr incwm-isel, sef gwestai ac arlwyo (15%), iechyd a gwaith cymdeithasol (14%), gweithgynhyrchu (12%), gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn (9%), addysg (8%), amaethyddiaeth, hela a choedwigaeth (7%), adeiladu (6%) a chludiant, storio a chyfathrebu (5%). Er bod y saith categori'n cyfrif am gyfran debyg o'r holl weithwyr yn yr arolwg, mae'r sectorau amaethyddiaeth, hela a choedwigaeth, gweithgynhyrchu a gwestai ac arlwyo yn cynnwys cyfran uwch o weithwyr incwm-isel, ac fe dan-gynrychiolir gweithwyr incwm-isel ym myd gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn ac ym myd addysg. At hynny, mae'n wir dweud bod gweithwyr incwm-isel yn fwy tebyg o fod yn ymgymryd â swyddi llai medrus / is eu statws yn y mathau hynny o gyflogaeth. Er enghraifft, cawsai 37% o deuluoedd incwm-isel eu gosod yn nosbarth cymdeithasol DE, sef cyfradd sy'n rhyw ddwbl yr hyn a gofnodwyd yn achos yr holl deuluoedd (18%), tra nad yw ond 11% o deuluoedd incwm-isel yn perthyn i ddosbarth AB, o'i gymharu ag 20% o'r holl deuluoedd.

Dywedodd chwarter yr holl ymatebwyr fod rhywun yn eu teulu wedi cael trafferth sicrhau gwaith yn yr ardal leol, a soniodd cyfran uwch o ymatebwyr o deuluoedd incwm-isel (31.6%) am drafferthion o'r fath. Y trafferthion y soniwyd amdanynt amlaf yn hyn o beth oedd bod y gwaith a oedd ar gael yn yr ardal yn gyfyngedig (38% o'r holl ymatebwyr) a bod swyddi lleol addas yn brin (38%). Ymysg y problemau eraill a grybwyllwyd yr oedd trafferthion cyrraedd mannau gweithio (8% o'r holl ymatebwyr), lefelau'r cyflogau (6%), rhwystrau ieithyddol (6%), a dim digon o waith amser-llawn (5%) a rhan-amser (4%).

Ymchwiliodd yr arolwg hefyd i ganfyddiadau'r ymatebwyr o'r trafferthion a gâi pobl yn eu hardal leol wrth geisio cael gwaith. Barn wyth o bob deg ymatebydd oedd bod y 'mwyafrif' neu 'rai' pobl yn eu hardal yn cael trafferth dod o hyd i swyddi'n lleol. Tebyg oedd y gyfran o ymatebwyr mewn teuluoedd incwm-isel a fynegodd y farn honno (sef 77.4%).

Mynediad i wasanaethau

Yr oedd gan ryw chwech o bob deg teulu yn yr arolwg (59%) gyfrifiadur personol a chysylltiad â'r rhyngrwyd. Yr oedd gan 8% arall gyfrifiadur a oedd heb fod ar

rwydwaith. Ymhlith teuluoedd incwm-isel, yr oedd y gyfran o deuluoedd a oedd yn berchen ar gyfrifiaduron a oedd â chysylltiad â'r rhyngrwyd yn is o lawer, sef dim ond 34%. Mae'r arolwg hefyd yn datgelu bod gan 62% o'r holl deuluoedd deledu digidol neu deledu lloeren (48% o'r rhai ar incwm isel) a bod gan 84% ffôn symudol (o'i gymharu â 66% o deuluoedd incwm-isel).

Soniodd ymatebwyr am broblemau a oedd yn gysylltiedig â chael gafael ar dai. Credai ychydig dros bedwar o bob deg (42%) fod y 'mwyafrif' o bobl yn eu hardal leol yn cael trafferth cael gafael ar dai, a dywedodd 37% arall fod 'rhai' pobl leol yn cael trafferthion o'r fath. Yn ddiddorol ddigon, cyfran is o ymatebwyr o deuluoedd incwm-isel a gyfeiriodd at broblemau lleol a oedd yn gysylltiedig â chael gafael ar dai. Er hynny, yr oedd nifer yr ymatebwyr a gâi'r problemau hynny'n is o lawer. Soniodd rhyw un o bob pum ymatebydd a hoffai fyw yn rhywle arall am broblemau ynglyn â thai. Y prif anawsterau a nodwyd oedd sicrhau eiddo y gellid fforddio'i brynu (14%), tai y gellid fforddio'u rhentu oddi wrth landlord preifat (5%) ac eiddo y gellid fforddio'i rentu oddi wrth landlord cymdeithasol (2%). Soniodd cyfran uwch o'r ymatebwyr mewn teuluoedd incwm-isel fod problemau cael gafael ar dai preifat, neu dai ar rent cymdeithasol, yn eu rhwystro rhag symud cartref.

Nid yw cael mynediad i wasanaethau eraill fel petai'n broblem i'r mwyafrif llethol o'r ymatebwyr i'r arolwg. Barnai mwy nag un o bob deg ymatebydd nad oedd ond pedwar o'r 21 o wasanaethau / cyfleusterau a gynhwyswyd ar yr holiadur yn achosi problem – i'r ymatebwyr neu i eraill yn eu teuluoedd, sef: deintyddfa (18%), sinema (18%), ysbyty cyffredinol (13%) a gorsaf heddlu (11%). At hynny, dywedodd 51% o'r ymatebwyr na chaent drafferth cael mynediad i'r unrhyw un o'r 21 o wasanaethau a gawsai eu cynnwys yn yr holiadur[13]. Dywedodd cyfran debyg o ymatebwyr a oedd yn byw yn y pentrefi llai ac mewn teuluoedd incwm-isel fod anawsterau mynediad yn codi. Er enghraifft, dywedodd 49% o ymatebwyr incwm-isel a 50% o'r ymatebwyr a oedd yn byw mewn 'pentref bach iawn neu yn y wlad agored' eu bod yn cael trafferth cael mynediad i unrhyw un o'r 21 gwasanaeth. Yma eto, mae'r canfyddiad o broblemau sy'n gysylltiedig â chael mynediad i wasanaethau yn fwy na realiti'r

[13] Y gwasanaethau / cyfleusterau eraill a gynhwyswyd yn yr holiadur oedd meddygfa, swyddfa bost, siop fwyd, archfarchnad, safle bws, banc / cymdeithas adeiladu, cyfleuster twll-yn-y-wal, canolfan gymunedol / neuadd bentref, tafarn, clwb cymdeithasol, eglwys / capel, gorsaf betrol, llyfrgell / llyfrgell symudol, modurdy sy'n atgyweirio ceir, yn gwneud profion MOT, ac ati, cyfleusterau gofal plant, ysgol.

problemau hynny ymysg teuluoedd. Er enghraifft, credai 60% o'r ymatebwyr fod pobl leol yn cael trafferth cael mynediad i wasanaethau iechyd.

Mae gwybodaeth fanylach am argaeledd gwasanaethau lles yng nghefn gwlad Cymru ar gael o'r *Arolwg o Wasanaethau yng Nghefn Gwlad* Cymru. Mae darganfyddion allweddol yr arolwg hwnnw'n dangos nad oes, mewn dros naw o bob deg cymuned yng nghefn gwlad Cymru, unrhyw wasanaeth cymorth lleol ar gael i'r di-waith, i'r digartref, i bobl â phroblemau cyffuriau nac i fenywod sy'n dioddef trais yn y cartref. Yn ogystal, nid oes gan 76% o gymunedau gwledig unrhyw ddarpariaeth i bobl ifanc fregus ac nid oes gan 58% ohonynt unrhyw wasanaeth cymorth i grwpiau o henoed bregus. At hynny, lle mae gwasanaethau lles yn bod, yn nhrefi cefn gwlad Cymru y ceir hwy'n bennaf.

Perthnasoedd cymdeithasol a chymunedol

O'r pedair agwedd ar allgáu cymdeithasol a nodwyd gan Gordon ac eraill (2000), sef tlodi, marchnadoedd llafur, gwasanaethau a pherthnasoedd cymdeithasol, efallai mai'r allgáu o berthnasoedd cymdeithasol yw'r un anoddaf i'w fesur. Cofnododd arolwg *Byw a Gweithio yng Nghefn Gwlad Cymru* amrywiaeth mawr o wybodaeth – am ymwneud â'r gymuned, perthyn, a chyfalaf cymdeithasol – sy'n ddefnyddiol wrth dynnu sylw at natur yr agwedd hon ar allgáu cymdeithasol yng nghefn gwlad Cymru.

Yn gyffredinol, mae'n ymddangos mai profiad teuluoedd gwledig yw lefelau uchel o gynhwysiant cymdeithasol a chymunedol. Dywedodd bron dau o bob tri o'r ymatebwyr (66%) eu bod yn siarad â chymdogion 'sawl gwaith yr wythnos', er bod 4% yn siarad â'u cymdogion lai nag unwaith y mis, a dywedodd 3% arall na fyddent byth yn siarad â hwy. Ymhlith y sampl incwm-isel, yr oedd y gyfran o ymatebwyr a ddywedodd eu bod mewn cysylltiad rheolaidd â'u cymdogion yn uwch gan i 74% ddweud eu bod yn siarad â hwy 'sawl gwaith yr wythnos'. Yn ogystal, yr oedd gan hanner yr holl ymatebwyr (51%) ac ymatebwyr incwm-isel (54%) aelod o'u teulu'n byw o fewn pum milltir i'w cartref. Ond i 23% o'r holl ymatebwyr ac 19% o'r rhai mewn teuluoedd incwm-isel, yr oedd yr aelod agosaf o'r teulu o leiaf 50 milltir i ffwrdd. At hynny, gall presenoldeb aelodau o'r teulu sy'n byw o fewn pum milltir

beidio â bod o fewn cyrraedd hwylus i deuluoedd di-gar mewn ardaloedd lle nad oes fawr o gludiant cyhoeddus.

Dywedodd y mwyafrif llethol o'r ymatebwyr ac o'r ymatebwyr incwm-isel eu bod ar y cyfan yn fodlon ar fywyd lleol ac yn teimlo'u bod yn cael eu cynnwys yn eu cymuned leol. Dywedodd mwy na naw o bob deg ymatebydd yn y ddau grwp eu bod 'yn bendant yn mwynhau byw mewn cymuned' a'u bod 'yn teimlo'n ddiogel yn byw yn fy nghymuned'. Yn ogystal, credai 76% o'r holl ymatebwyr a 78% o'r rhai mewn teuluoedd incwm-isel fod 'ymwybyddiaeth gref o deimlad cymunedol yn lle rwy'n byw', a dywedodd rhyw 80% o'r ddau grwp o ymatebwyr eu bod 'yn ystyried fy hun yn aelod o'r gymuned leol'. Yn wir, dim ond 12% o'r holl ymatebwyr ac o'r ymatebwyr incwm-isel a deimlai eu bod wedi'u hallgáu o'u cymuned leol. Er hynny, cytunodd cyfran helaethach o'r ymatebwyr mewn teuluoedd incwm-isel (25%) â'r datganiad y 'gall deimlo'n unig wrth fyw yn eich ardal chi' na'r ymatebwyr i'r sampl gyfan (19%).

Mae'r arolwg yn dangos bod teuluoedd incwm-isel yn llai tebyg o fod yn aelodau o amrywiaeth mawr o fudiadau gwledig, amgylcheddol neu awyr-agored cenedlaethol ac o grwpiau a chymdeithasau lleol. Er enghraifft, 10% o deuluoedd incwm-isel a oedd yn perthyn i unrhyw fudiad cenedlaethol o'r fath, o'i gymharu â 12% o'r holl deuluoedd a 21% o deuluoedd ag incwm o £31,000 y flwyddyn o leiaf. Yn yr un modd, ar y lefel leol, 32% o deuluoedd incwm-isel a oedd yn perthyn i unrhyw grwpiau neu gymdeithasau neu'n cymryd rhan yn eu gweithgareddau, o'i gymharu â 39% o'r holl deuluoedd a 46% o deuluoedd incwm-uchel (£31,000+ y flwyddyn).

Yn olaf, mae'n ymddangos bod teuluoedd incwm-isel yn llai tebyg o gymryd rhan mewn amryw o weithgareddau cymdeithasol a gymerir yn ganiataol. Dywedodd rhyw hanner y teuluoedd incwm-isel iddynt fod ar wyliau (heb gynnwys aros gyda ffrindiau neu'r teulu) yn ystod y 12 mis cyn cynnal yr arolwg. Mae'r ffigur hwnnw gryn dipyn yn is na'r 67% o'r holl deuluoedd a oedd wedi cymryd gwyliau yn ddiweddar. Dywedodd 54% eu bod yn tueddu 'i wneud rhywbeth i gael adloniant sy'n costio arian' o leiaf unwaith y mis, o'i gymharu â 68% o'r holl ymatebwyr.

## 6. Profiad o fyw ar incwm isel yng nghefn gwlad

I gael gwybodaeth fanylach am brofiadau byw ar incwm isel yng nghefn gwlad Cymru fe gynhaliwyd cyfweliadau â sampl o ymatebwyr mewn teuluoedd incwm-isel[14] o'r arolwg *Byw a Gweithio yng Nghefn Gwlad Cymru* a oedd wedi cytuno i gymryd rhan mewn ymchwil bellach. Canolbwyntiodd y cyfweliadau ar sampl o 20% o deuluoedd incwm-isel sy'n byw yn nhiriogaethau'r ddau awdurdod lleol lle cofnodwyd y lefelau uchaf o deuluoedd incwm-isel (ar sail data o'r arolwg o deuluoedd, ac ystadegau CACI ynghylch incwm), sef Gwynedd a Sir Benfro. Cynhaliwyd cyfanswm o 26 o gyfweliadau rhwng Mawrth ac Ebrill 2005. Yr oedd y cyfweliadau'n lled-strwythuredig ac yn ymchwilio i wahanol agweddau ar brofiadau pobl o fyw ar incwm isel. Cynhwysir patrwm y cyfweliadau yn Atodiad 1.

<u>Canfyddiadau o fyw'n lleol</u>

Disgrifiad cadarnhaol o'u hardal leol a gafwyd gan y mwyafrif llethol o'r rhai ar incwm isel a gyfwelwyd. Yng Ngwynedd, yr hyn a hoffai'r mwyafrif o bobl fwyaf am fyw yn yr ardal oedd y dirwedd leol.

> *"Mae'n bentref eithaf tawel; mae yma awyr iach, mynyddoedd a digon o le i chi fynd am dro."* (Dyn 55-64 oed, Gwynedd)

> *"Mae'r olygfa o'r lle rwy'n byw yn rhyfeddol. Mae'n hawdd gweld Eryri a'r Wyddfa ar ddiwrnod braf, ac ar ddiwrnod clir medrwch chi weld mor bell i'r de â Thywyn ac Aberystwyth. Dyna'r ydw i'n ei hoffi amdano."* (Dyn 35-44 oed, Gwynedd)

tra rhoddai'r rhai a gyfwelwyd yn Sir Benfro fwy o bwyslais ar ansawdd uchel byw mewn cymuned leol a mwynhau cyfalaf cymdeithasol. Cafwyd sylwadau fel: '*pobl gyfeillgar*' (Dyn 45-54 oed, Sir Benfro); '*mae'r bobl yn hynod o gyfeillgar a chroesawgar ac yn neis iawn*' (Menyw 55-64 oed, Sir Benfro); ac '*mae'n bentref braf a phawb yn nabod ei gilydd*' (Menyw, 35-44 oed). Y nodweddion cadarnhaol eraill ar fywyd gwledig lleol a grybwyllwyd gan y rhai a gyfwelwyd yn y naill sir a'r llall oedd y cyfraddau troseddu isel a'r ffaith fod eu hardaloedd yn iach ac yn heddychlon.

---

[14] teuluoedd ag incwm blynyddol gros o lai na £10,000.

Gan fod cynifer mor fodlon ar fyw yn eu bro, nid yw'n syndod na allai'r mwyafrif o bobl gynnig unrhyw reswm dros beidio â hoffi byw yn eu hardal leol. O'r rhai a wnaeth hynny, cyfeiriwyd yn bennaf at ansawdd cyfyngedig neu wael y gwasanaethau a oedd ar gael yn lleol:

> *"Rydach chi ar goll os nad oes gynnoch chi gar. Does dim cyfleusterau mewn gwirionedd i unrhyw un fedru mynd allan o'r pentref. Bydd y bws yn rhedeg ddwywaith y dydd ond dydy hynny ddim yn gyfleus iawn."* (Dynes 45-54 oed, Gwynedd).

> *"Fe allen ni wneud y tro ag ychydig yn rhagor o wasanaethau bws. Dyw'r gwasanaeth ddim mor aml â hynny ... rhaid i chi gael bysiau i bobl, chi'n gweld."* (Menyw 65-74 oed, Sir Benfro).

Barn y mwyafrif o'r bobl incwm-isel a gyfwelwyd yng Ngwynedd a Sir Benfro oedd bod ymwybyddiaeth o gymuned yn eu hardal leol. Cyfeiriwyd at fodolaeth strwythurau lleol o gymorth anffurfiol fel nodwedd allweddol ar yr ymwybyddiaeth honno o gymuned:

> *"Dwi'n meddwl bod pawb yn helpu ei gilydd. Os bydd unrhyw beth yn torri, mi ewch chi i ofyn i bobl am help. Dyna sy'n gwneud cymuned mewn gwirionedd – pobl y medrwch chi fynd atyn nhw i ofyn am gymorth."* (Dynes 55-64 oed, Gwynedd).

> *"Mae pawb yn nabod ei gilydd wrth ei enwau cyntaf ac fe wyddoch chi y byddai pobl yn eich helpu petai rhywbeth yn mynd o'i le. Chewch chi mo hynny yn y trefi mawr, ta beth."* (Dyn 65-74 oed, Sir Benfro).

> *"Tra 'dw i wedi bod yn sâl, mae cant a mil o bobl wedi bod yn dod i ofalu amdana i; mae'r holl goginio wedi'i wneud, a phopeth arall, a'r holl lanhau wedi'i wneud, wyddoch chi …."* (Dyn 65-74 oed, Gwynedd)

> *"Os caiff rhywun ei anafu neu os bydd rhywun yn marw, neu rywbeth fel 'na, daw pobl i helpu. Pan gollais i fy mam ychydig flynyddoedd yn ôl, roedd pobl yn arbennig o dda ac maen nhw'n dal i fod yn arbennig o dda, hyd yn oed heddiw. Gallwch chi gerdded i lawr y Stryd Fawr ac os nad ydyn nhw'n codi llaw arnoch chi o'u ceir, byddwch chi'n sefyll i siarad â nhw. Weithiau, gall pum munud o daith gymryd hanner awr i fi – mae'n dibynnu pwy sydd ar y stryd."* (Dyn 45-54 oed, Sir Benfro).

Tynnodd rhai pobl sylw at yr amrywiaeth mawr o weithgareddau cymunedol, megis clybiau chwaraeon, cymdeithasau a boreau coffi, sy'n bod yn eu hardaloedd, a chyfeiriodd eraill at weithredoedd pobl leol wrth ymateb i fygythiadau allanol fel enghraifft o gryfder y gymuned leol. Er enghraifft, cyfeiriodd un person at brynu hen

ysgol eglwys gan y pentrefwyr i'w defnyddio gan y gymuned, a dywedodd un arall fod y gymuned '*wedi dod ynghyd i brotestio yn erbyn codi mast ffonau symudol. Rhoeson ni stop ar y syniad hwnnw. Pan fydd rhywbeth felly'n digwydd, bydd pawb fel petaen nhw'n dod at ei gilydd i ymladd dros y pentref*' (Menyw 55-64 oed).

Er hynny, teimlai tri o'r 26 o bobl a gyfwelwyd nad oedd ymwybyddiaeth o gymdeithas yn eu hardal leol, ac awgryment '*does fawr o gymysgu; fydd y teuluoedd ddim yn cymysgu ac ati*' ac er bod '*pawb yn dweud helo, ddywedwn i ddim fod hwn yn lle cyfeillgar na bod unrhyw gymuned yma'.*

Er i'r mwyafrif o'r bobl deimlo bod ymwybyddiaeth o gymuned yn eu bro, ni chredai pawb eu bod yn perthyn i'r gymuned honno. Ceir tystiolaeth bod ambell un ohonynt yn dewis ei gau neu ei chau ei hun allan o'r gymuned leol: '*Cadw i mi fy hun fydda i*' (Dyn 55-64 oed, Gwynedd); '*Mae llawer o genedlaetholwyr yma, a dwi ddim yn un o'r grwp... Fyddwn ni ddim yn cymdeithasu*' (Dynes 45-54 oed, Gwynedd). Credai gwraig arall fod ei theimlad o berthyn i gymuned yn amrywio yn ôl barn pobl eraill yn y fro am ei hunaniaeth:

> *"Weithiau, bydda i'n teimlo fel petawn i'n perthyn, ac ar adegau eraill fydda i ddim gan 'mod i wedi cael fy ngeni yn Sir Efrog ac nid y Gymraeg ydy fy iaith gyntaf, ac mae fan 'ma'n lle Cymraeg iawn. Mae hi'n gymdeithas Gymraeg iawn ac weithiau medr pobl fod yn iawn efo chi ac ar adegau eraill fyddan nhw ddim; 'dach chi'n dal ddim yn perthyn er 'mod i wedi byw yma am 37 o flynyddoedd. Mi gewch chi ambell un sy'n Gymro i'r carn, a wnaiff o ddim siarad â chi; wnân nhw ddim siarad Saesneg i achub eu crwyn eu hunain, a bod yn onest efo chi. Medran nhw fod yn dipyn o farn. Mae ambell un sy'n difetha petha, ond mae'r rhan fwya o bobl yn iawn".* (Dynes 35-44 oed, Gwynedd)

Yn yr un modd, teimlai menyw a gyfwelwyd yn Sir Benfro '*nad ydw i wir yn perthyn [i'r gymuned] am nad ydw i'n siarad Cymraeg'* (Menyw 55-64 oed, Sir Benfro). Yn ogystal, fe awgrymodd rhywun a oedd wedi symud i Wynedd o Fryste fod gwahanu diwylliannol i'w gael yn y gymuned:

> *"Tuedd y Cymry ydy glynu wrth ei gilydd, dwi"n credu, ac fel arall. Dydyn ni ddim yn nabod cymaint â hynny o bobl. Does ond un grwp o bobl i fyny'r ffordd ryn ni'n eu nabod ac sy'n dod yn wreiddiol o Fryste."* (Dyn 55-64 oed, Gwynedd).

Teimlai'r mwyafrif o bobl eu bod yn rhan o wead cymdeithasol eu cymuned, boed hynny oherwydd y cymorth a gynigid iddynt gan aelodau o'r gymuned – '*pan oeddwn i'n sâl yn yr ysbyty, gofynnodd pump o bobl i'n gwraig a oedd isio pàs arni i'r ysbyty*' (Dyn 65-74 oed, Gwynedd) – drwy eu hymwneud â gweithgareddau cymunedol – '*bydda i, gyda rhywun arall, yn gwneud papur bro. Felly, os bydd rhywbeth yn digwydd, byddan nhw'n cysylltu â ni*' (Menyw 45-54 oed, Sir Benfro) – neu drwy sefydliadau ffurfiol ac anffurfiol – '*mae 'ngwraig yn perthyn i'r WI ac rwy'n aelod o'r Gymdeithas Hanes ac yn is-gadeirydd arni... ryn ni wedi cael ein derbyn*' (Dyn 65-74 oed, Sir Benfro).

Cyfeiriodd dau berson at eu gwaith ddoe a heddiw fel ffordd o gael eu cynnwys yn y gymdeithas:

> *"Gan i ni fod yn stiwardiaid y clwb cymdeithasol tan ryw chwe blynedd yn ôl, ac i mi weithio cyn hynny yn siop y pentref am bymtheg mlynedd, fe ddes i i nabod llawer o bobl yno."* (Menyw 65-74 oed, Sir Benfro).

> *"Rwy'n rhan o'r gymuned oherwydd fy ngwaith. Mae pawb yn gwybod pwy ydw i am mai fi sy'n torri gwallt pob un ohonyn nhw. Galla i fynd i'r siopau, ac os nad oes arian 'da fi, fe ddywedan nhw wrtha i am dalu'r wythnos nesaf."* (Menyw 25-34 oed, Sir Benfro).

<u>Ffynonellau o wybodaeth leol</u>

Defnyddiai pobl amrywiaeth o ddulliau i ddarganfod beth sy'n digwydd yn eu hardal leol. Ar draws Gwynedd a Sir Benfro, dywedodd hanner y rhai a gyfwelwyd eu bod yn defnyddio'r papur newydd lleol, a dibynnai rhyw un o bob tri ar bobl eraill i gael gwybod am newyddion a digwyddiadau lleol. Cyfeiriwyd hefyd at hysbysfyrddau, radio lleol, cofnodion y Cyngor Cymuned a thaflenni fel ffynonellau eraill o wybodaeth. Mewn gwirionedd, defnyddiai pobl amrywiaeth o wahanol ddulliau i gael gwybod beth oedd yn digwydd yn eu bro, fel y mae'r dyfyniadau hyn yn dangos:

> *"Mae gynnon ni siop a swyddfa bost, a bydd y rhan fwya ohonon ni'n mynd yno yn y bora. Byddwn ni'n cyfarfod efo pobl ac yn siarad efo pobl. Mae hysbysiadau yno. Mae gynnon ni, fel eglwys, y Gair Bach, ac ynddo bob Sul 'dan ni'n cael gwybod beth sy'n digwydd yn yr eglwysi eraill. Mae hynny'n help i gael gwybod beth sy'n mynd ymlaen."* (Dyn 55-64 oed, Gwynedd)

> *"Yn ddiweddar, yr orsaf radio leol. Mae Radio Pembrokeshire yn wych – maen nhw'n rhoi gwybod i chi am bopeth sy'n digwydd, ac os na wnân nhw, fe glywa i drwy rywun arall. Mae 'da fi fodryb sy'n byw drws nesa a ffrindie sy'n byw gerllaw. Gan ein bod ni'n mynd ma's ar wahanol amsere, os clywn ni rywbeth fe ffoniwn ni'n gilydd i ofyn wyt ti wedi clywed am hwn a'r llall?"* (Dyn 45-54 oed, Sir Benfro).

<u>Ffyrdd problemus o fyw yn y wlad</u>

Yn ddiddorol ddigon, cafodd y mwyafrif o bobl drafferth i enwi unrhyw broblem a gaent wrth fyw yn eu hardal leol. Prin oedd y rhai a soniodd am unrhyw broblemau tai. Cyfeiriodd y rhai a wnaeth hynny at gyflwr anfoddhaol y lle'r oeddent yn byw ynddo – '*mae'r gawod yn gollwng ac wedi pydru'r llawr*' (Menyw 45-54 oed, Sir Benfro); *'mae angen i ni drwsio to'r gegin ond dwi wrthi'n trio cael gwybod am gael grant i wneud hynny*' (Dyn 65-74 oed, Gwynedd) a'r problemau sy'n gysylltiedig â chael mynediad i dai cymdeithasol – '*rwy ar y rhestr dai ers saith mlynedd ac yn dal i aros*' (Menyw 55-64 oed, Sir Benfro).

O ran mynediad i wasanaethau, mae gwahaniaethau amlwg rhwng y rhai a gyfwelwyd yng Ngwynedd ac yn Sir Benfro. Yn y gyntaf, dim ond un o'r 13 o bobl a gyfwelwyd a ddywedodd iddynt gael trafferth cael gafael ar wasanaethau, a hynny'n bennaf ynghylch cludiant cyhoeddus:

> *"Dydy gwasanaethau meddygon ddim ar gael y tu allan i'r oriau rwan. Felly, os bydd fy merch i'n sâl ar ôl oriau'r feddygfa, dwi'n gorfod mynd â hi i Ysbyty Gwynedd. Am nad oes gen i gar, mae hynny'n broblem wirioneddol fawr. Gofynnwyd i mi unwaith gymryd tacsi, ond bydd hynny'n costio £20. Medr y gwasanaeth bws fod yn eitha gwael yn y cylch yma ar adega. Mae'n dibynnu pa ran o'r pentref 'dach chi'n byw ynddi. Os ydach chi ar y Stryd Fawr, 'dach chi'n iawn, ond os 'dach chi'n byw ar y bryniau, pytiog iawn ydy'r gwasanaeth bws."* (Dynes 35- 44 oed, Gwynedd)

Yn Sir Benfro, ar y llaw arall, dywedodd y mwyafrif o bobl y caent drafferth cael mynediad i wasanaethau gwledig gwahanol. Problem arbennig oedd mynediad cyfyngedig i wasanaethau deintyddol. Soniodd pump o'r wyth a gafodd drafferthion o unrhyw fath fod hyn y broblem.

> *"Roedd fy neintydd i'n wych ond fe ymddeolodd e ddydd Gwener. Roedd wedi bod mewn practis am 35 mlynedd a neb am gymryd y ddeintyddfa ar ei ôl e. Bydd hynny'n boen."* (Dyn 45-54 oed, Sir Benfro).

*"Mae angen mwy na char arnoch chi; mae angen hofrennydd arnoch chi i gyrraedd deintydd. Mae deintyddion yn y cylch yma'n broblem ofnadw. Mae deintydd agosa'r Gwasanaeth Iechyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Rhaid i'r mab deithio i Ben-y-bont i gael ei drin gan ddeintydd."* (Dyn 65-74 oed, Sir Benfro).

Cyfeiriodd eraill at broblemau ehangach ynglyn â'r ddarpariaeth wael o ran cludiant cyhoeddus. Soniodd un fod y bws '*yn dod ar ddydd Gwener ond dyw e ddim ond yn treulio ¾ awr yn y dref; felly, os nad oes car 'da chi, mae'n broblem a rhaid i chi ddibynnu ar bobl eraill*' (Menyw 45-54 oed, Sir Benfro). Yn wir, cyfeiriodd un person at ei dibyniaeth ar aelodau o'i theulu i fynd â hi at y meddyg: '*does 'da ni ddim car gan i roi'r gorau i'w ddefnyddio, ac felly bydd fy chwaer neu fy chwaer-yng-nghyfraith yn mynd â ni os bydd angen i ni fynd i weld y doctor*' (Menyw 65-74 oed, Sir Benfro).

Mynd Allan

Ymchwiliodd y cyfweliadau i hyd a lled gallu pobl mewn teuluoedd incwm-isel i fynd allan i gael adloniant. Yr hyn y mae'r cyfweliadau'n ei ddangos yw i'r mwyafrif o bobl ddweud iddynt fod allan i gael adloniant yn ystod y pythefnos cyn y cyfweliad. Yn achos y rhai a oedd wedi bod allan, yr oedd tafarnau a chlybiau cymdeithasol wedi bod yn gyrchfannau amlwg:

*"Bydda i'n mynd i'r dafarn leol, rhyw ddwy filltir i ffwrdd, gwpl o weithiau'r wythnos."* (Dyn 65-74 oed, Gwynedd)

*"Byddwn ni'n chwarae 'bridge' yng Nghaernarfon yn rheolaidd."* (Dyn 55-64 oed, Gwynedd)

*"ar ddydd Mawrth bydda i'n mynd i'r clwb cymdeithasol ac yn chwarae bingo."* (Menyw 65-74 oed, Sir Benfro)

*"Bydda i'n mynd allan i'r dafarn ar brynhawn dydd Sadwrn a dydd Sul – dyna'r diwrnod gorau. Mae pawb allan."* (Dyn 45-54 oed, Sir Benfro)

Soniodd y rhai a oedd heb fod allan i gael adloniant yn ystod y pythefnos cyn y cyfweliad am amrywiaeth o ffactorau a oedd wedi'u rhwystro, gan gynnwys cyfrifoldebau dros ddibynyddion, diffyg cludiant, ac ymrwymiadau gwaith:

"*mae hi 'm bach yn anodd mynd allan yn y nos a chael pryd o fwyd, dim ond fy ngwr a fi. Dyw iechyd fy rhieni i ddim yn dda. Gan na allan nhw ddim ymdopi â*

*phlentyn bach yn rhedeg o gwmpas, mae hi braidd yn anodd dod o hyd i rywun i'w warchod e. Does dim ots 'da fi – wy'n hoffi aros i mewn*." (Menyw 16-24 oed, Sir Benfro)

*"Yn ystod y pythefnos dwetha? Go brin; dyn ni ddim wedi bod ma's i gael adloniant yn ystod y pedwar mis dwetha. Does 'da ni ddim llawer o amser i gael bywyd cymdeithasol am ein bod ni'n trïo sefydlu'n busnes garddwriaeth."* (Menyw 55-64 oed, Sir Benfro).

*"Trafferth eu cyrraedd nhw yw'r broblem am nad ydw i'n gyrru."* (Menyw 25-34 oed, Sir Benfro).

*"Am fod fy ngwr i'n sâl, bydd gwraig o elusen leol yn dod i eistedd gydag e bob prynhawn dydd Gwener am ddwyawr. Ddydd Gwener diwetha, felly, fe es i ma's am ddwyawr a gwneud ychydig o siopa. Mae'r trefniant yma'n wych i mi achos nad ydw i'n talu dim amdano fe. Mae hi'n fenyw hyfryd ac mae 'ngwr i'n ddigon hapus iddi ddod ato fe. Mae'n wych o beth i fi. Ar hyn o bryd, yn anffodus, alla i ddim cymryd rhan yn y pethau sy'n digwydd yn y pentref os na alla i gael rhywun i eistedd gyda 'ngwr; all e ddim siarad yn ofnadw o dda ac mae angen i fi fod gydag e ar hyn o bryd."* (Menyw 65-74 oed, Sir Benfro).

Er bod adnoddau ariannol cyfyngedig yn rhan o'r rhesymau hynny, ni chyfeiriodd yr un o'r rhai a gyfwelwyd at hynny fel y prif reswm dros iddynt beidio â mynd allan i gael adloniant.

<u>Gwybodaeth am hawliau lles</u>

Tynnodd Arolwg yr Arsyllfa o Wasanaethau yng Nghefn Gwlad Cymru sylw at y ddarpariaeth gyfyngedig yn y mwyafrif o ardaloedd gwledig o ran gwasanaethau sy'n rhoi gwybodaeth am les. Yn y cyfweliadau fe ymchwiliwyd i'r broblem hon o fynediad i hawliau lles. Dywedodd tri-chwarter y bobl a gyfwelwyd mai i swyddfa leol Cyngor ar Bopeth yr aent i gael gwybod am eu hawliau, a dywedodd eu hanner mai at eu teuluoedd a'u cyfeillion y troent am gyngor:

"*mae rhai cyfreithwyr wedi ymddeol i fyw yn y pentref, ac ryn ni'n gyfeillgar â nhw."* (Menyw 65-74 oed, Sir Benfro)

*"byddwn i'n gofyn i 'nhad-yng-nghyfraith yn gynta gan taw plismon oedd e'n arfer bod."* (Menyw 45-54 oed, Sir Benfro)

*"pobl yn y gwaith gan mwya - fe gewch chi gyngor 'da nhw... maen nhw'n rhoi tipyn o wybodaeth i chi."* (Menyw 25-34 oed, Sir Benfro).

Soniodd pobl eraill am eu cyfreithiwr, y swyddfa Budd-daliadau a'r llinell gymorth, y gymdeithas tai leol, y Swyddfa Bost, y cyngor lleol a'r Rhyngrwyd fel ffynonellau posibl o wybodaeth am hawliau lles.

<u>Safonau byw</u>

Credai'r mwyafrif o'r bobl incwm-isel a gyfwelwyd fod eu safon byw tua'r un fath â safon byw y mwyafrif o bobl leol eraill. Fel y dywedodd dau o'r rhai a gyfwelwyd yn Sir Benfro: '*Byddwch chi'n stryglo weithiau ond ddim mwy na'r person cyffredin*' (Dyn 45-54 oed, Sir Benfro); '*wy' ddim yn dda fy myd ond wy' ddim yn dlawd*' (Dyn 65-74 oed, Sir Benfro). Credai rhyw chwarter y bobl eu bod yn waeth eu byd na phobl yn eu hardal leol. Tystiolaeth un wraig i ategu ei barn oedd ei bod hi ar Gymhorthdal Incwm a '*braidd yn fyr o arian bob amser*' (Menyw 35-44 oed, Sir Benfro). Cysylltodd menyw arall ei sefyllfa â'r ystâd o dai cymdeithasol yr oedd hi'n byw arni: '*dwi'n byw ar ystâd eitha tlawd o'i chymharu â lleoedd eraill. Rydan ni'n byw mewn ty cyngor*' (Dynes 16-24 oed, Gwynedd). Teimlai pobl eraill eu bod yn waeth eu byd o'i gymharu ag amgylchiadau eu cymdogion, fel y mae'r dyfyniadau isod o'r cyfweliadau yn dangos:

> *"Mae'n siwr 'mod i'n ein cymharu ni â'n cymdogion. Ar y naill ochr i ni, maen nhw'n gweithio ac mae 'da nhw safon byw dda iawn, fyddwn i'n meddwl. Yr ochr arall, maen nhw wedi ymddeol ac mae'n debyg bod 'da nhw safon o fyw sydd lawer yn well na'n hun ni am fod 'da nhw ddau gar ac maen nhw'n newid eu ceir yn dragywydd. Mae 'nghar i'n hen iawn a phan ddaw e i ben ei daith, dyna ni wedyn. Fydda i ddim yn gallu fforddio un arall. Felly, o edrych ar bethau'n faterol, mae'n fwy na thebyg ein bod ni'n waeth ein byd, ond ryn ni'n hapus ac mae 'da ni'n cartref ein hunain ac, i fi, mae hynny'n bwysig iawn."* (Menyw 65-74 oed, Sir Benfro).

> *"Gan mai rhiant sengl ydw i, dyw hi ddim yn hawdd weithiau ac mae'n rhaid i fi weithio. Byddwn ni'n dod i ben, ond alla i ddim fforddio carped a phethe fel 'na. Does 'da fi byth arian i wneud pethe fel 'na – rwy'n dibynnu ar beth fydd pobl yn ei roi i fi. Mae fy safon byw, am wn i, yn eitha isel o gymharu â safon bywpobl eraill."* (Menyw 25-34 oed, Sir Benfro).

Nid oedd nifer fach o bobl yn siwr sut yr oedd eu safon byw yn cymharu â safon byw pobl eraill a oedd yn byw yn lleol. Tynnodd un o'r rheiny sylw at y ffaith nad yw anabledd ei wraig yn rhoi cyfle iddo siarad â phobl: '*am na fedra i adael fy ngwraig ar*

*ei phen ei hun yn rhy hir, fydda i ddim yn siarad rhyw lawer a fydda i ddim yn gweld llawer o bobl am na fedr hi prin gerdded o gwbl'* (Dyn 55-64 oed, Gwynedd).

Dim ond dau berson a deimlai eu bod yn well eu byd na phobl eraill a oedd yn byw yn lleol, yn enwedig y rhai a ddibynnai ar fudd-daliadau'r wladwriaeth a'r rhai a oedd yn gweithio yn y sectorau cyflog-isel yn yr economi lleol:

> *"[Rwy'n teimlo 'mod i'n well fy myd] am fod nifer fawr o bobl yn y cylch yma allan o waith, yn anabl neu rywbeth felly, a dydy'r cyflogau ddim yn rhyw dda iawn beth bynnag, hyd yn oed os ydan nhw'n gweithio."* (Dyn 55-64 oed, Gwynedd)
>
> *"rwy'n credu bod fy mhensiwn yn uwch na chyflogau arferol i lawr yma."* (Dyn 65-74 oed, Sir Benfro).

<u>Canfyddiadau o incwm isel yn yr ardal leol</u>

Cydnabu'r mwyafrif o bobl fod teuluoedd incwm-isel yn eu hardal leol, a bod gwahanol agweddau ar dlodi lleol:

> *"Ydw, rwy'n byw yn eu plith nhw. Ar yr ystâd tai cyngor, does gan neb arian. Mae llond gwlad o famau sengl 'ma a theuluoedd heb waith am nad oes 'na ryw lawer o waith 'ma."* (Menyw 25-34 oed, Sir Benfro).
>
> *"Mae eitha tipyn, a dweud y gwir... rhai sy'n dibynnu ar y gwasanaethau cymdeithasol, y math hynny o beth – pobl, gan mwya, nad ydan nhw ddim isio gweithio. Pobl dda i ddim ydyn nhw yn fy marn i, pobl yn benna o Ganolbarth Lloegr a lleoedd felly. Byddan nhw'n dod yma i beidio â gweithio a beth bynnag y galwch chi o."* (Dyn 65-74 oed, Gwynedd).

Er hynny, yr oedd rhai o'r rhai a oedd yn cydnabod bod teuluoedd ar incwm isel yn eu cymdogaeth yn llai clir ynglyn â'r dystiolaeth dros ei bodolaeth:

> *"mae'n fwy na thebyg eu bod nhw [grwpiau incwm-isel] yma am nad 'yn ni ddim yn ardal arbennig o gyfoethog, ac rwy'n credu bod pawb yn dod i ben. Rwy'n siwr bod yma bobl sydd ar fudd-daliadau yn union fel ni, ond dwy' ddim yn meddwl ein bod ni'n tueddu i sôn am y peth." (Menyw 65-74 oed, Sir Benfro)*
>
> *"oes, mae'n rhaid bod [grwpiau incwm-isel] yma am fod y cyflogau'n isel, ac felly mae'n rhaid ei bod hi'n galed iawn ar bobl â phlant." (Menyw 55-64 oed, Sir Benfro).*

Ar y llaw arall, teimlai nifer fach o'r rhai mewn teuluoedd incwm-isel a gyfwelwyd nad oedd unrhyw deuluoedd incwm-isel yn byw yn eu hardal hwy:

> *"na, ddim yn yr ardal hon mewn gwirionedd, nac oes."* (Menyw 55-64 oed, Sir Benfro)

> *"nid yn y cyffiniau 'ma. Sylw fy mab pan ddaethon ni yma gyntaf oedd mai fan hyn mae'r bobl braf eu byd yn byw; byddan nhw hyd yn oed yn rhoi rhywbeth dros eu sachau sbwriel wrth eu gadael nhw ma's dros nos. Mae prisiau tai yma yn uwch na'r cyffredin."* (Dyn 65-74 oed, Sir Benfro)

> *"mae ambell gwpwl ifanc yn byw yma efo'u plant ac mae gin y di-waith geir a phetha felly, a faswn i ddim yn deud eu bod nhw ar y cythlwng ffor'ma, beth bynnag."* (Dyn 65-74 oed, Gwynedd)

> *"Rwy'n credu bod y Llywodraeth yn gofalu am bobl y dyddiau hyn."* (Menyw 65-74 oed, Sir Benfro).

Y grwp y tybiai'r mwyafrif o'r rhai a gyfwelwyd eu bod yn arbennig o debyg o gael incwm-isel yng nghefn gwlad oedd y di-waith. Soniodd eraill am deuluoedd sy'n gweithio am incwm isel, pobl sydd wedi ymddeol ar bensiwn y wladwriaeth, y rhai sydd â salwch tymor-hir sy'n cyfyngu arnynt, a rhieni sengl. Ond awgrymodd rhai pobl nad oedd incwm isel yn effeithio ar un grwp o bobl yn fwy na'i gilydd:

> *"fe gewch chi nhw ymhobman – ond yn y stryd hon mae rhyw bum ty allan o 20 efallai – ond maen nhw'n dod i ben yn iawn ac yn cael dau ben llinyn ynghyd."* (Menyw 16-24 oed, Sir Benfro)

> *"mae'n effeithio ar lawer o bobl yn yr ardal hon. Dydy cyflogau ddim yn dda iawn o gwbl yn yr ardal hon."* (Dyn 35-44 oed, Gwynedd)

Yr oedd y prif achosion canfyddedig incwm isel a thlodi lleol yn ymwneud â gwaith, ac yn enwedig â'r amrywiaeth cyfyngedig o swyddi sy'n talu'n dda yng nghefn gwlad:

> *"Mae'n debyg mai'r math o waith y maen nhw'n wneud yn y cylch yma, does dim llawer ohono fo. Mae gynnon ni ffatri fach a dydyn nhw ddim yn talu rhyw lawar."* (Dynes 55-65 oed, Gwynedd)

> *"mae'n fater o'r math o swyddi – gyrwyr, gweithwyr ffarm, gofalu am yr henoed, helpu mewn cartrefi, y math yna o beth."* (Menyw 55-64 oed, Sir Benfro)

> *"does rhyw lawer o gyfle i gael gwaith; dyna i chi Oakwood [atyniad i ymwelwyr] a phethe fel 'na, a ffarmo…."* (Menyw 16-24 oed, Sir Benfro)

> *"mae'n anodd cael gwaith amser-llawn [yn y cylch]'."* (Dyn 35-44 oed, Gwynedd).

Cyfeiriodd eraill at y lefel isel o gyrhaeddiad addysgol ac o bensiwn y wladwriaeth fel ffactorau cyfrannol, ac awgrymodd un fod ffactorau cymdeithasol a diwylliannol yn chwarae rôl wrth sicrhau parhad sefyllfaoedd lle mae'r incwm yn isel:

> *"Rhesymau cymdeithasol yw llawer o'r achos, rwy'n meddwl. Mae hunan-barch isel yn broblem fawr lle rwy'n byw. Pan fydd pobl yn ddi-waith am amser hir, maen nhw fel arfer yn negyddol am bopeth, a hunan-barch isel yw'r achos, siwr i chi. Wrth gwrs, mewn lle fel hyn, os cewch chi enw gwael ac os ewch chi am swydd, ac os oes 'da chi enw am fod ag agwedd wael neu rywbeth felly, does neb yn mynd i'ch cyflogi chi am fod pawb yn eich nabod chi. Felly, mae'n bwysig i chi fod â llawer o hunan-barch. Mae'n eitha cymhleth mewn gwirionedd; mae'r materion cymdeithasol yn gymhleth dros ben."* (Menyw 25-34 oed, Sir Benfro).

## 7. Taclo tlodi ac allgáu cymdeithasol yng nghefn gwlad Cymru

Cydran olaf yr ymchwil oedd astudio gweithredoedd asiantaethau wrth daclo tlodi ac allgáu cymdeithasol yng nghefn gwlad Cymru. Cynhaliwyd cyfweliadau lled-strwythuredig â swyddogion sy'n ymdrin â thlodi, neu broblemau sy'n ymwneud â thlodi, yn y naw awdurdod lleol gwledig, yn ogystal â chynrychiolwyr o'r mudiadau cenedlaethol hyn: Shelter Cymru; Cyngor ar Bopeth; Help the Aged; Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys (PAVO) ar ran Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru; Mind Cymru; Ymgynghorwyr Cymru ar Hawliau Lles; Ffederasiwn Cenedlaethol yr Isbostfeistri; a Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru (y WFHA). Er i'r cyfweliadau ymchwilio i bersbectifau'r asiantaethau ynghylch natur a graddfa tlodi ac allgáu cymdeithasol yng nghefn gwlad, mae'r wybodaeth a gyflwynir yn yr adran hon o'r adroddiad yn canolbwyntio ar y ffordd y mae mudiadau cenedlaethol ac awdurdodau lleol yn delio â ffurfiau gwledig ar dlodi ac allgáu.

<u>Gweithgareddau asiantaethau sy'n rhoi sylw i dlodi ac allgáu cymdeithasol gwledig</u>

Tynnodd yr asiantaethau cenedlaethol sylw at yr amrywiaeth mawr o fentrau a oedd, yn eu barn hwy, yn cael effaith ar y bobl dlawd a'r bobl sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol yng nghefn gwlad Cymru. Cyfeiriodd rhai ohonynt at eu gwaith o godi proffil problemau cefn gwlad. Yr oedd PAVO, er enghraifft, wrthi'n trefnu cynhadledd ar gynhwysiant cymdeithasol gwledig (fe'i cynhaliwyd ym mis Tachwedd 2005) a chyfeiriodd y WFHA at ei gwaith ar 'godi proffil materion tai cefn gwlad, ac yr ydym hefyd wedi awgrymu y dylid gwneud ymchwil i ddigartrefedd yng nghefn gwlad'. Yr oedd arolwg a wnaed gan Ffederasiwn Cenedlaethol yr Isbostfeistri o incwm isbostfeistri wedi tynnu sylw at lefel isel yr incwm yng nghefn gwlad, tra oedd Mind Cymru, o gydnabod bod cymunedau cefn gwlad yn wynebu problemau arbennig ynglyn â stigma, unigrwydd, trafferth wrth gael mynediad i wasanaethau, a diffyg anhysbysedd, wedi cyd-benodi Swyddog Polisi Cefn Gwlad (gyda Lloegr).

Er bod eu cylch gwaith yn ymdrin â Chymru gyfan, awgrymodd mudiadau eraill eu bod yn dal i fod yn effro i'r amlygiadau gwledig o dlodi ac allgáu cymdeithasol.

Credai mudiad Shelter Cymru fod ei weithredoedd i ymdrin â digartrefedd yn cynnwys ardaloedd cefn gwlad:

> *"Mae Shelter Cymru'n darparu cyngor cyfreithiol ynghylch materion tai/ digartrefedd. Mae'n gweithio hefyd i ddylanwadu ar Lywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch taclo digartrefedd a'r angen am dai. [Mae ganddo] brosiect cyswllt carchar sy'n rhoi cyngor a chymorth i garcharorion a gaiff eu rhyddhau'n ddigartref. Bydd Shelter Cymru'n ceisio sicrhau bod y gwasanaethau [hyn] yn rhychwantu ardaloedd cefn gwlad."*

a thynnodd y mudiad Cyngor ar Bopeth sylw at y ffordd y mae ei ehangu diweddar ar wasanaethau cynghori yng Nghymru yn darparu ymateb mwy effeithiol i bobl yng nghefn gwlad:

> *"gan ein bod ni wedi graddol gyflwyno'u gwasanaeth 'gwell cyngor, gwell iechyd' yng Nghymru, mae mwy na 154 o leoedd newydd mewn meddygfeydd yn cynnig cyngor. Rydyn ni hefyd wedi bod yn gweithio gyda Dwr Cymru i gyflwyno mwy a mwy ar gronfa galedi. Mae'r mudiad yn gweithio'n agos yng Nghymru ar y Rhwydwaith Diweddu Tlodi Plant am ein bod ni wedi sylweddoli bod tlodi ymhlith plant yng Nghymru yn fater y gallwn ni roi mewnbwn iddo ar incwm teuluoedd. Mae gennym ni hefyd wasanaethau ffôn, gwasanaethau biwro, ymweliadau allgymorth ac ymweliadau cartref, a gwahanol gynlluniau i gael pobl i ddefnyddio'n gwasanaethau."*

Yn ogystal, cyfeiriodd Ffederasiwn Cenedlaethol yr Isbostfeistri at rôl answyddogol y swyddfa bost wrth ateb anghenion grwpiau ar incwm is, a grwpiau bregus, yng nghefn gwlad:

> *"Amcangyfrif Swyddfa'r Post Cyf yw mai o grwpiau economaidd gymdeithasol C i DE y daw 58% o'i gwsmeriaid. Mae'r swyddfa bost yn anhygoel o bwysig i'r bobl yn y grwpiau hynny… Bydd swyddfeydd post hefyd yn rhoi cymorth uniongyrchol i breswylwyr lleol bregus, yn enwedig i bobl hyn a phobl anabl. Byddan nhw'n chwarae rôl answyddogol drwy helpu i ddehongli llythyrau swyddogol a chynnig cefnogaeth emosiynol, y math yna o beth."*

Crybwyllodd yr asiantaethau hyn hefyd amryw o fentrau sy'n ceisio delio â thlodi ac allgáu cymdeithasol yng nghefn gwlad. Honnodd PAVO, sy'n gweithredu fel grwp ymbarél i'r sector gwirfoddol ym Mhowys, fod ei aelodau'n darparu gwasanaethau sy'n cynnig cyngor ynghylch lles, ac yn rhedeg prosiectau i ofalwyr, cyn-droseddwyr, pobl â phroblemau cyffuriau ac alcohol, a'r rhai â phroblemau iechyd meddwl. Yn ôl ei gynrychiolydd, 'mae'r grwpiau hynny'n gweithio i hwyluso cyfranogiad y rhai sydd fwyaf ar ymylon cymdeithas a'r rhai mwyaf bregus, a'r rhai sydd wedi'u hallgáu'n

gymdeithasol. Mae PAVO yn gweithio gyda hwy i gynyddu eu gallu i wneud y gwaith hwn'. Mae'r WFHA wedi sefydlu'r Grwp Gwledig o Gymdeithasau Tai i gynyddu proffil materion tai yng nghefn gwlad yn lleol ac yn genedlaethol ac wedi ymwneud â sefydlu'r cynllun Galluogwr Tai Gwledig yng nghefn gwlad Cymru. Trafododd Help the Aged brosiect datblygu cymunedol lleol mewn dwy ardal yng nghefn gwlad Cymru:

> *"[mae'r prosiect yn ymwneud â chael] pobl hyn eu hunain yn y cymunedau i nodi'r hyn y mae arnyn nhw ei angen a'i eisiau a chael pobl hyn eu hunain i'w ddarparu. Rydyn ni wedi gweithio gyda phobl hyn hyd at y pwynt lle mae gennym ni, erbyn hyn, gynllun cludo gwirfoddol a gaiff ei ariannu a'i gynnal fel asiantaeth wirfoddol gan bobl hyn ac mae'r awdurdod lleol wedi cymeradwyo [hyn] ac yn gweithio i'w ehangu. Mae hynny, felly, wedi bod yn arloesol, a hefyd drwy'r un fenter yn yr un ardal... mae hen siop wedi'i throi bellach yn ganolfan adnoddau cymunedol i'r pentref. Mae pobl hyn yn ei rhedeg fel busnes cymunedol ac mae'r rhain yn wasanaethau unigryw o arloesol lle rydyn ni wedi galluogi pobl, os hoffech chi, lle mae pobl hyn wedi nodi beth y mae arnyn nhw ei angen ac rydyn ni wedi gweithio gyda nhw ac wedi'u harfogi nhw, wedi dysgu sgiliau iddyn nhw weithio mewn partneriaeth er mwyn iddyn nhw allu rhedeg eu gwasanaethau eu hunain. Mae'n ffordd ddiddorol ac arloesol iawn o weithio... Rydyn ni [hefyd] yn gweithio gyda fforymau gwledig i'w helpu i ddatblygu eu sgiliau ymgyrchu er mwyn iddyn nhw eu hunain allu rhoi sylw i faterion allgáu cymdeithasol. Rydyn ni felly wedi gweithio, er enghraifft, gyda fforwm sydd wedi bod yn ymgyrchu ynghylch mynediad i wasanaethau iechyd yng nghefn gwlad yn arbennig."*

Yr oedd mentrau gwrth-dlodi a rhai o blaid cynhwysiant cymdeithasol hefyd yn nodwedd ar waith awdurdodau lleol yng nghefn gwlad Cymru. Dywedodd sawl awdurdod lleol ei fod wrthi'n taclo tlodi ac allgáu cymdeithasol fel partner mewn rhaglenni cenedlaethol ac Ewropeaidd ehangach o adfywio economaidd a chymdeithasol a datblygu cymunedol, gan gynnwys rhaglenni Cymunedau'n Gyntaf, Gweithredu dros Gymunedau Gwledig ac Amcan Un. Dywedwyd hefyd fod awdurdodau lleol, drwy eu gwaith eu hunain ar ddatblygu economaidd, yn creu marchnadoedd llafur gwledig mwy cynaladwy ac yn darparu mwy o amrywiaeth o waith i bobl leol. Yn ogystal, crybwyllodd yr awdurdodau lleol gwledig fentrau mwy penodol a roddai sylw i dlodi ac allgáu cymdeithasol. Yr oedd y rheiny'n ymdrin â rhoi cyngor ynghylch budd-daliadau, ymgyrchoedd i hybu hawlio budd-daliadau, prosiectau a oedd yn ymdrin ag anghydraddoldebau mewn iechyd, gwaith gyda gwahanol grwpiau bregus yn eu tiriogaethau, sicrhau nad oedd polisïau lles yn waeth yng nghefn gwlad, a rhaglenni datblygu cymunedol. Isod, ceir enghreifftiau o'r mathau o waith a wneir gan awdurdodau lleol:

*"Ein dull ni ydy mynd i mewn i'r cymunedau hyn i weithio gyda'r gymuned – sefydlu partneriaeth y mae'r gymuned yn ei harwain ac yna helpu'r gymuned i chwilio am y ffactorau sy'n esgor ar dlodi ac allgáu cymdeithasol. Drwy gydweithio fel hyn, mae modd cynyddu gallu'r cymunedau a chwilio am ffyrdd o ddatblygu a gweithredu strategaeth ddatblygu gymunedol tymor-hir i wella'r sefyllfa ym mhob cymuned unigol. Dyna'n ffordd ni o weithredu o ran darparu rhaglen Cymunedau'n Gyntaf."* (Môn)

*"Strategaeth cynhwysiant cymdeithasol. Cynyddu incwm hyd yr eithaf drwy gyfrwng gwasanaethau budd-daliadau lles, a'r rheiny wedi'u hariannu'n bennaf yn y sector gwirfoddol. Cefnogaeth i amrywiaeth mawr o weithgarwch yn y sector gwirfoddol i hybu ymglymiad cymunedol a chynnwys pobl fel pobl ifanc a gofalwyr, gwasanaethau a chyfleusterau. Sefydlu amrywiaeth o ganolfannau teuluol ledled y sir. Clybiau dydd lleol a chlybiau cinio ar gael i bobl hyn. Cefnogaeth i gynlluniau cludiant cymunedol. Rhaglen adfywio fawr i ysgogi gweithgarwch economaidd a lleihau diweithdra. Datblygu tai fforddiadwy. Defnyddio technoleg gwybodaeth, e.e. gosod band eang. Gwasanaeth llyfrgell symudol. Datblygu gwefan y cyngor. Datblygu canolfan gyswllt i hwyluso cysylltu â'r cyngor. Rhwydweithiau cymunedol wedi'u sefydlu'n ddiweddar i hwyluso ymglymiad y gymuned yn natblygiadau'r cyngor ac ymgynghori â thrigolion lleol. Defnyddio Panel y Dinasyddion, gwneud arolwg o agweddau trigolion, a chyhoeddi Newyddion Cymuned a dosbarthu copi ohono i bob teulu."* (Sir Gaerfyrddin)

*"Wel, un peth a wnaethon ni ar ôl i'r Cyngor gael ei ailstrwythuro ym 1996 oedd penodi swyddog tlodi a materion cymdeithasol, ac yn 2001 fe gyhoeddon ni strategaeth i geisio ymateb i rai o'r problemau a gafwyd – er enghraifft, gwella mynediad i wasanaethau ariannol drwy wthio'r syniad o undebau credyd."* (Gwynedd)

*"Sefydlwyd pedair Partneriaeth Ardal i gynnig mecanwaith i dynnu i mewn y grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd ac wedi'u heithrio'n gymdeithasol... Sefydlwyd y Fforwm Cludiant Gwledig gan y Partneriaethau Ardal gwledig. Hwyluswyd yr ymgynghori ynglyn â'r Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles drwy rwydweithiau'r Partneriaethau Ardal gan ddefnyddio llawer o fannau cyfarfod gwledig a'r llyfrgell symudol. Comisiynwyd adroddiad ar effaith gwledigrwydd ar y Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2004 a chaiff argymhellion o'r adroddiad hwnnw eu cyflwyno i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Mehefin 2005."* (Sir Ddinbych)

Gweithio mewn partneriaeth

Mae gweithio mewn partneriaeth yn nodwedd o bwys ar y mentrau hyn i daclo tlodi a hybu cynhwysiant cymdeithasol. Yr oedd yr asiantaethau cenedlaethol yn gweithio gyda sefydliadau cenedlaethol eraill fel Llywodraeth Cynulliad Cymru, yr Adran Gwaith a Phensiynau, Oxfam Cymru, Awdurdod Datblygu Cymru, Awdurdodau'r

Parciau Cenedlaethol, y Countryside Agency, Cyngor Ffoaduriaid Cymru ac Age Concern, yn ogystal â'r awdurdodau lleol gwledig:

*"Byddwn ni'n gweithio'n agos gyda'r sector gwirfoddol yn gyffredinol. Byddwn ni'n cydweithio, os yw'n briodol, â Llywodraeth Cynulliad Cymru. Byddwn ni hefyd yn cydweithio, os yw'n briodol, â llywodraeth leol... byddwn ni'n cydweithio â phawb ."* (Help the Aged)

*"Byddwn, byddwn ni'n gweithio llawer gyda'r sector gwirfoddol; byddwn ni'n eu helpu gyda gwaith budd-daliadau drwy ein llinellau cyngor i ymgynghorwyr yn ogystal ag un i'r cyhoedd... byddwn ni'n rhedeg llawer o gyrsiau hyfforddi y daw pobl fel Age Concern, Cyngor ar Bopeth, amrywiol grwpiau o'r Groes Goch, a grwpiau gwirfoddol iddyn nhw."* (Ymgynghorwyr Hawliau Lles Cymru)

*"Rydyn ni'n gweithio gyda llawer o'r mudiadau plant yn y Rhwydwaith Diweddu Tlodi Plant, sef Plant yng Nghymru, Barnardos, yr NSPCC, Achub y Plant a Fair Bridge, yr NCH, a dyna i chi'r Comisiwn Cyfle Cyfartal a phobl eraill hefyd, i gyd yn gweithio o dan Siarter y Cenhedloedd Unedig i blant o dan y faner honno. Rydyn ni hefyd yn gweithio gyda Rhwydwaith Gwrth-dlodi Cymru sy'n cysylltu ag Oxfam Cymru; a hefyd yn gweithio gyda Shelter Cymru, er ein bod ni'n tueddu i siarad â'n gilydd yn fwy na gwneud darnau pwrpasol o waith gyda'n gilydd. O fewn ein strwythur yng Nghymru, mae'n cyfarwyddiaeth yn ymwneud llawer iawn â'r sector gwirfoddol."* (Cyngor ar Bopeth)

*"Mae Shelter Cymru'n gweithio gyda ... Llywodraeth Cynulliad Cymru ac awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau cynghori ynghylch tai ledled Cymru – gan gynnwys gwasanaethau yng nghefn gwlad ac mewn ardaloedd trefol. Mae Shelter Cymru'n gweithio gyda mudiadau eraill, e.e. Homeless Link, mudiadau digartrefedd lleol, i dynnu sylw at broblem yr angen am dai, a phroblem digartrefedd. Mae hynny'n cynnwys lobïo ac ymgyrchu, er enghraifft."* (Shelter Cymru)

*"Ydyn, rydyn ni'n gweithio gydag Awdurdodau Lleol a'r Cynulliad a hefyd wedi ymwneud â'r Parciau Cenedlaethol a'r WDA, ac â Banc Barclays i weld pa fenthyciadau y gall ein haelodau eu cael i weithredu prosiectau newydd ac arloesol fel Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol."* (Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru)

*"Rydyn ni'n gweithio gyda'r Rural Stress Information Network a'r All Wales Stress Forum – er nad oes ganddyn nhw ddim cylch gwaith gwledig, byddwn ni'n gwthio'r elfen wledig bob tro y gallwn ni. Rydyn ni hefyd yn gweithio gyda'r Sefydliad Iechyd Gwledig, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Mewn Cymru sydd ar hyn o bryd yn ystyried materion menywod yng nghefn gwlad."* (Mind Cymru)

Yr oedd yr awdurdodau lleol gwledig hefyd yn ymwneud yn weithgar â gweithio mewn partneriaethau i ymdrin â thlodi ac allgáu cymdeithasol. Yr oedd yr awdurdodau'n gweithio ar draws adrannau a gynhwysai Ddatblygu Economaidd ac

Adfywio, y Gwasanaethau Cymdeithasol, y Gwasanaethau Tai, Priffyrdd a Chludiant, y Gwasanaethau Hamdden, Addysg a Dysgu Gydol Oes, a'r Gwasanaethau Ieuenctid. Canolbwynt y rhan fwyaf o'r cydweithio yn yr awdurdodau lleol oedd materion cludiant, darparu gwasanaethau, tai a'r hawl i gael budd-daliadau:

> *"Ydy, mae'r adran wedi'i rhannu'n Wasanaethau Cymdeithasol a Gwasanaethau Tai ac mae'n amlwg bod llawer o gydweithio rhwng y ddwy is-adran. Byddwn ni hefyd yn gweithio'n agos gyda'r adran Datblygu Economaidd, yr adran Addysg a Dysgu Gydol Oes a'r Gwasanaethau Hamdden – byddwn ni hyd yn oed yn gweithio'n agos gyda'r adran Gyllid i sicrhau bod monitro parhaus ar raglen Cymunedau'n Gyntaf. Mae'r adran Diogelwch Cymunedol hefyd yn elfen o bwys sy'n gweithio yn y cymunedau, ac yn fwy diweddar ... mae'r adran Gynllunio a'r adran Gwasanaethau Tai ill dwy wedi bod yn cydweithio'n agos."* (Môn)

> *"Ydym. Gwaith gydag Adfywio ar ddatblygu cymunedol a gwaith gwrth-dlodi, Dysgu Gydol Oes ar ymwneud â phobl ifanc ac argaeledd cyfleusterau lleol, e.e. canolfannau teuluol."* (Sir Gaerfyrddin)

> *"Mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio'n agos gyda'r Adran Priffyrdd a Chludiant i sicrhau y caiff anghenion grwpiau sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol eu hymgorffori yn y Gwasanaethau Cynllunio. Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio gyda Gwasanaethau Ieuenctid a'r partneriaethau Plant a Phobl Ifanc i ganfod yr anghenion a rhoi sylw i'r bylchau yn y ddarpariaeth. Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd yn gweithio gyda'r Adran Polisi Strategol Corfforaethol i gydlynu'r cynllunio o dan y Strategaeth Gymunedol."* (Sir Ddinbych)

> *"Byddwn ni'n trafod gydag amrywiol unigolion yn yr is-adran ac, yn wir, ar draws y Cyngor, ac yn sicr rydyn ni wedi ymrwymo i weithio gydag is-adrannau ac adrannau eraill gymaint â phosibl."* (Gwynedd)

> *"Ydym – mae swyddfa'n Swyddog Cludiant Cymunedol ni yng Nghyfarwyddiaeth yr Amgylchedd. Mae'n gweithio gyda Thîm Ardal Canol Sir Fynwy ar gynllun bysiau Grass Routes ac yn cydlynu'r gwirfoddolwyr."* (Sir Fynwy)

> *"Ydym, ar draws y cyfan yn gorfforaethol, ond ar y cyfan, byddai'r rhan fwyaf ohono'n perthyn i'n huned adfywio economaidd."* (Sir Benfro)

Yr oedd awdurdodau lleol hefyd yn gweithio gyda nifer fawr o asiantaethau allanol i daclo tlodi ac allgáu cymdeithasol yn eu tiriogaethau. Ymhlith yr asiantaethau hynny yr oedd Cyngor ar Bopeth, Age Concern, yr heddlu, cymdeithasau tai, asiantaethau iechyd, Bwrdd Croeso Cymru ac Awdurdod Datblygu Cymru, fel y mae'r dyfyniadau isod o gyfweliadau yn dangos:

*“Byddwn ni hefyd yn gweithio mewn partneriaeth agos â Chymdeithasau Tai... Maen nhw’n hollbwysig o ran cynyddu’r cyflenwad tai a hefyd wrth ddatblygu cymunedau lleol. Byddwn ni hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â’r heddlu i daclo troseddu ac anhrefn. Hefyd â’r CAB, Shelter Cymru a’r WDA – mae amrywiaeth o asiantaethau, a bod yn onest. Bydd swyddfa leol CAB yn cynnal cymorthfeydd yn y cymunedau, a’r rheiny’n cynnig cyngor ynghylch cyllidebu, rheoli cyllid a dyledion, a helpu i negodi gyda chredydwyr. Mae’r Cyngor hefyd wedi sefydlu Canolfan Jimmy O’Toole yng Nghaergybi i roi cymorth i’r di-waith – ac unwaith eto mae’n rhoi cyngor ynghylch cyllid ac yn sicrhau bod pobl yn cael budd-daliadau y mae ganddyn nhw’r hawl i’w cael. Bydd y ganolfan hefyd yn darparu cyrsiau hyfforddiant i geisio annog a pharatoi unigolion i ddychwelyd i weithio. Mae partneriaethau hefyd wedi’u sefydlu â darparwyr hyfforddiant eraill yn yr ardal drwy brosiect Cymunedau’n Gyntaf – maen nhw’n darparu’r un math o gyrsiau hyfforddi i helpu pobl i fynd yn ôl i’r farchnad lafur. Hefyd... mae’r cynllun ‘Cefnogi Pobl’... yn helpu pobl a all fod â phroblemau cyllidebu a hefyd bobl sy’n dioddef o anableddau meddyliol, alcoholiaeth, camddefnyddio cyffuriau ac ati...”* (Môn)

*“Gwaith gyda’r Bwrdd Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau’r GIG i hybu iechyd a hwyluso mynediad i wasanaethau iechyd. Gwaith gyda’r heddlu a’r gwasanaeth prawf ar ddiogelwch y gymuned e.e. ymddygiad gwrthgymdeithasol, camddefnyddio sylweddau. Gwaith gyda’r sector gwirfoddol, e.e. Cyngor Ar Bopeth a Chymdeithas y Gwasanaethau Gwirfoddol i gefnogi gweithgarwch y sector gwirfoddol.”* (Sir Gaerfyrddin)

*“Partneriaeth Cymunedau’n Gyntaf (prosiect sy’n talu am fws mini i gludo cleifion i feddygfa am fod y gangen leol wedi cau); grwpiau ‘Menter’ lleol e.e. Curiad Caron; Age Concern (sy’n rhedeg gwasanaeth gwneud-cyfaill a siopa yng nghefn gwlad); Fforwm Adfywio De Ceredigion – mae’r partneriaid yn cynnwys y WDA, ELWa (hyfforddiant gyrfaoedd), Bwrdd Croeso Cymru (cymorth a hyfforddiant i ddatblygu busnesau twristaidd), Llygad Busnes, Antur Teifi (cyngor a grantiau i fusnesau newydd); y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol.”* (Ceredigion)

*“Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych, Mind Dyffryn Clwyd (Gwasanaeth Allgymorth Gwledig), yr NSPCC (Cymunedau sy’n Dirion wrth Blant, Corwen), y Ganolfan Byw’n Iach (yr HLC), Corwen (amryw byd o bartneriaid, a rhai ohonynt o’r sectorau statudol, gwirfoddol a chymunedol). Darparwyr gwasanaethau o’r sector annibynnol, e.e. gofal cartref, gofal preswyl a gofal nyrsio.”* (Sir Ddinbych)

*“Pobl fel Cyngor yr Henoed, CAB, Ymddiriedolaeth Hawliau Lles Anabledd ym Mangor. Mae gan bob Cyngor bartneriaeth gwybodaeth sy’n gweithio dros Wynedd gyfan. Hefyd mewn partneriaeth â Chomisiwn Gwasanaethau’r Gyfraith, mae llawer o gymdeithasau’n yn ceisio sicrhau budd-daliadau i bobl sy’n dioddef o glefyd Alzheimer ac i’r deillion.”* (Gwynedd)

*“Gweithredu dros Gymunedau Gwledig [a] Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent.”* (Sir Fynwy)

*“Ie, y Cynllun Cymunedol Cyffredinol – cynllun sy’n cynnwys amryw o asiantaethau – sef y Parciau Cenedlaethol, Heddlu Dyfed/Powys, y Frigâd Dân, Cymdeithas y Mudiadau Gwirfoddol, popeth felly... Bwrdd Iechyd Lleol Ymddiriedolaeth y GIG, wrth gwrs, y coleg hefyd, maen nhw’n rhan o’r peth... yr uned adfywio, maen nhw i gyd yn gweithio gyda chysylltiadau ledled y wlad yn y Cynulliad. Byddan nhw hefyd yn gweithio ar yr ochr fudd-daliadau i bethau ac yn gweithio gyda Chanolfan Byd Gwaith ac yn y blaen. Rydyn ni wedi gwneud cryn dipyn o waith gyda Chymdeithas y Gwasanaethau Gwirfoddol a grwpiau cymunedol, Cynghorau Cymuned a’r rheiny i gyd.”* (Sir Benfro)

*“Hybu iechyd, practisau meddygon, cymdeithasau tai, y sector gwirfoddol e.e. CAB, Age Concern, y WRVS, y WI, mudiadau cludiant cymunedol, eglwysi, yr heddlu.”* (Powys)

Asesu effeithiau gweithredoedd asiantaethau ar dlodi ac allgáu cymdeithasol yng nghefn gwlad

Ar y cyfan, credai’r asiantaethau cenedlaethol a’r awdurdodau lleol gwledig a gymerodd ran yn y cyfweliadau fod y mathau o fentrau a drafodwyd yn yr adrannau uchod wedi llwyddo i ddelio â chydrannau penodol o dlodi ac allgáu cymdeithasol yng nghefn gwlad Cymru. I rai asiantaethau, un elfen yn y llwyddiant oedd yr amlygrwydd cynyddol a roddai’r llywodraeth a sefydliadau cenedlaethol i broblemau cefn gwlad. Credai’r WFHA, Help the Aged a PAVO fod eu prosiectau i roi cymorth gwledig i grwpiau tlawd ac allgaeedig yng nghefn gwlad yn gweithio’n dda. Cyfeiriodd asiantaethau eraill hefyd at effeithiau cadarnhaol rhaglenni gwrth-dlodi cenedlaethol fel yr Isafswm Cyflog, y Credydau Treth i Deuluoedd, a’r polisïau ar ddigartrefedd yng nghefn gwlad.

Teimlai sawl awdurdod lleol fod ei ymwneud â gweithio mewn partneriaeth wedi llwyddo i daclo tlodi ac allgáu cymdeithasol yng nghefn gwlad. Dywedodd Sir Ddinbych, er enghraifft, fod ‘*y ffordd o weithio drwy bartneriaeth yn sicrhau manteision, e.e. gweithio ar y cyd o fewn yr Awdurdod o dan nawdd Partneriaethau Ardal a’r Strategaeth Gymunedol, a hefyd y partneriaethau allanol*’. Yn Sir Gaerfyrddin fe awgrymwyd bod ‘*peth tystiolaeth o lwyddiant un o’n mentrau o ran lefel y budd-daliadau lles sydd wedi’u hawlio’n llwyddiannus*’. Yr oedd awdurdodau eraill yn llai sicr ynghylch effaith eu polisïau lleol ar dlodi ac allgáu. Credai Môn a Cheredigion ei bod hi’n rhy fuan i werthuso mentrau gwrth-dlodi diweddar a’r rhai i

hybu cynhwysiant cymdeithasol. Tynnodd swyddog o Sir Benfro sylw at anhawster gwerthuso prosiectau'n wrthrychol:

> *"Mae'r gweithio'i hun, neu logisteg gweithio gyda'n gilydd, wedi bod yn llwyddiannus iawn yn fy marn i, ond dwy' i ddim yn siwr a allwn i ateb hynny am nad wy'n siwr pa fesuriadau sydd wedi'u pennu."*

ac yng Ngwynedd teimlwyd bod y mentrau wedi cael effaith wahanol mewn rhannau penodol o diriogaeth yr awdurdod:

> *"Dydan ni ddim wedi bod mor llwyddiannus yn yr ardaloedd gwledig mwy anghysbell yng Ngwynedd, ond stori wahanol yw hi ar gyrion y trefi a'r pentrefi mawr."*

<u>Gweithredoedd pellach</u>

Er i'r asiantaethau a'r awdurdodau lleol fod, ar y cyfan, yn gadarnhaol eu barn am eu gwaith gwrth-dlodi a hybu cynhwysiant cymdeithasol, gwnaethant hefyd awgrymu ffyrdd o wella'r ymagweddau cyfredol. Nododd y rhai a gyfwelwyd bedair prif weithred. Mae'r gyntaf yn ymwneud ag ariannu. Dywedodd sawl asiantaeth ac awdurdod fod ariannu llawer menter yn achosi problemau oherwydd lefelau isel, cyfnodau byr a diffyg hyblygrwydd y pecynnau ariannu presennol. I PAVO, yr oedd angen 'cydnabod bod angen adnoddau ychwanegol i ddarparu gwasanaethau yng nghefn gwlad' a hefyd 'ariannu mwy hyblyg i gynyddu mwy a mwy ar allu cymunedau i gynhyrchu mentrau o'u pen a'u pastwn eu hunain'. Awgrymodd Shelter Cymru fod 'diffyg buddsoddi helaeth yn golygu nad yw… ymrwymiadau strategol [i daclo digartrefedd] yn cael eu gwireddu'. I Sir Ddinbych, 'ariannu rhaglenni a phrosiectau yn y tymor hir' oedd y cam allweddol pellach yr oedd gofyn ei gymryd i daclo tlodi ac allgáu cymdeithasol yn fwy effeithiol.

Mae'r ail thema sy'n codi o'r cyfweliadau yn ymwneud â gweithio mewn partneriaeth. Teimlai rhai o swyddogion yr awdurdodau mai arfer dulliau gwell o weithio mewn partneriaeth oedd yr allwedd i daclo tlodi ac allgáu yng nghefn gwlad. Honnent fod angen partneriaethau effeithiol yn lleol ac yn genedlaethol:

*“[Mae arnon ni angen] i’r llywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol... ddal i weithio gyda chymunedau i ganfod yr achosion a cheisio’u cywiro, fel sy’n digwydd nawr. Yn y pen draw, canlyniad polisi cyffredinol y llywodraeth a thueddiadau cymdeithasol ac economaidd yw tlodi ac allgáu cymdeithasol, ac mae gofyn cymryd camau sylfaenol yn eu cylch yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.”* (Sir Gaerfyrddin)

*“Dwi’n credu mai’r prif gwestiwn ydy beth [yn fwy] y medrwn ni ei wneud drwy weithio mewn partneriaeth.”* (Gwynedd)

*“Rwy’n credu ar y foment ei bod hi’n fater o gyrraedd rhai rhannau o Lywodraeth Cynulliad Cymru, a bod angen i ni ganolbwyntio ar hynny. Bydd hefyd yn ein helpu i gynyddu’n dylanwad ar effaith Cymru ar faterion sydd heb eu datganoli, er enghraifft, materion budd-daliadau.”* (Mind Cymru)

Cydnabuwyd hefyd na ellid taclo tlodi ac allgáu cymdeithasol gwledig yn effeithiol heb roi ystyriaeth briodol i strwythur economi cefn gwlad a’r ddarpariaeth tai yng nghefn gwlad. Yng ngeiriau cynrychiolydd yr WFHA, ‘Rwy’n gwybod ei bod hi’n haws dweud na gwneud ond... mae angen mwy o fuddsoddi arnon ni mewn tai fforddiadwy a mwy o fuddsoddi yn economi cefn gwlad Cymru’. Gwnaeth Crisis bwynt tebyg:

*“Y naill yw helpu pobl i oresgyn y problemau personol a all fod ganddyn nhw a sicrhau felly fod y cymorth iawn ar gael, er enghraifft, i bobl a all fod yn dioddef o salwch meddwl neu’n gaeth i gyffuriau, neu â sgiliau gwael, a thrwy hynny sicrhau bod modd iddyn nhw gael mynediad i’r gwasanaethau sy’n berthnasol iddyn nhw ac elwa ohonyn nhw, a thaclo’r elfennau bregus yn eu bywydau. Mater o newidiadau strwythurol yw’r llall, sef sicrhau bod yna dai sy’n fforddiadwy a bod yna waith sy’n talu cyflog teilwng.”*

Yn bedwerydd, cafwyd galwadau i sicrhau parhad polisïau (lles) awdurdodau lleol ar gyfer cefn gwlad a datblygu moddau newydd o waith gwrth-dlodi i sicrhau diwallu anghenion grwpiau tlawd ac allgaeedig yng nghefn gwlad.

*“[mae angen i ni] gydnabod bod premiwm gwledig ynghlwm wrth ddarparu gwasanaethau, a chynyddu’r llifoedd refeniw i sicrhau cydraddoldeb yn y ddarpariaeth o wasanaethau ledled y sir. Mae angen, felly, i’r Asesiad o Effaith Wledig cynlluniau a pholisïau fod yn rhan annatod o’r broses ddatblygu.”* (Sir Ddinbych)

*“mae angen datblygu model gwledig sy’n cydnabod nad oes modd sicrhau darbodion maint bob amser, sy’n gwahanu cydrannau tlodi ac allgáu cymdeithasol, ac sy’n cydnabod faint o adnoddau y mae eu hangen i gyrraedd pobl fregus a phobl dan anfantais os ydynt ar wasgar ar draws tiriogaeth ddaearyddol eang.”* (PAVO)

## 8. Crynodeb o'r prif ddarganfyddion

Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad hwn yn dangos yn glir nad oes modd gwadu presenoldeb tlodi ac allgáu cymdeithasol yng nghefn gwlad Cymru. Mae'r arolwg o 4,000 o deuluoedd yng nghefn gwlad Cymru yn dangos bod chwarter y teuluoedd yn byw ar incwm o lai na £10,000 yn 2004, ac mae data CACI am gyflogau yn dangos i un person o bob pump sydd mewn gwaith yng nghefn gwlad Cymru ennill llai na'r ffigur hwnnw yn 2003. Yn ogystal, mae cryn leiafrif o boblogaeth cefn gwlad yn dibynnu ar fudd-daliadau'r wladwriaeth ar sail prawf moddion: yr oedd 19% o deuluoedd yn cael Budd-dal y Dreth Gyngor a 17% o bobl ar Gymhorthdal Incwm yn 2001.

Nid yw'r lefelau o incwm isel ac o dderbyn budd-daliadau yng nghefn gwlad Cymru yn wahanol i'r rhai a gofnodwyd yn Ardaloedd Trefol Cymru ac yn y Cymoedd. Er enghraifft, yr un oedd y gyfran o'r teuluoedd gweithio yng nghefn gwlad Cymru a enillodd lai na £10,000 yn 2003 ag yn yr Ardaloedd Trefol, sef 20%, ac yn llai o ryw ychydig bach na'r ffigur yn achos y Cymoedd (21%). Mae hi hefyd yn wir fod pobl ar incwm isel a phobl sy'n cael budd-daliadau i'w cael ledled cefn gwlad Cymru. Mewn 10 o diriogaethau 12 o'r awdurdodau gwledig a gynhwyswyd yn yr arolwg o deuluoedd, yr oedd dros un o bob pum teulu ar incwm isel. Yn ogystal, yn 2001, yr oedd o leiaf 5% o boblogaeth dwy o bob tair o'r wardiau yng nghefn gwlad Cymru ar Gymhorthdal Incwm neu Gredyd Treth i Deuluoedd sy'n Gweithio.

Ceir llawer iawn o amrywiadau daearyddol yn y lefelau o incwm isel a derbyn budd-daliadau yng nghefn gwlad Cymru. Yn gyffredinol, mae cryn wahaniaeth rhwng rhannau dwyreiniol a gorllewinol y wlad, yn enwedig rhwng y gororau incwm-uchel yn y gogledd-ddwyrain a'r de-ddwyrain, a'r ardaloedd incwm-isel yn y gogledd-orllewin, lle mae patrwm incwm teuluoedd yn debyg i'r hyn a geir yn y Cymoedd. Er hynny, mae daearyddiaeth incymau isel yng nghefn gwlad Cymru yn fwy cymhleth nag yr awgryma'r amrywiadau rhanbarthol hyn, gan fod pocedi o deuluoedd incwm-isel i'w cael mewn gwahanol rannau o'r wlad. Er enghraifft, hyd yn oed yn Sir Fynwy, yr awdurdod unedol sydd â'r cyfartaledd uchaf o incwm teuluol yng Nghymru, mae 15% o'r teuluoedd yno'n dal i fyw ar incwm isel.

Mae'r arolwg o 4,000 o deuluoedd hefyd wedi esgor ar lawer iawn o dystiolaeth am natur tlodi ac allgáu cymdeithasol yng nghefn gwlad Cymru. Gan gadarnhau ffrwyth astudiaethau eraill o dlodi cefn gwlad, ceir mai pobl hyn yw'r grwp incwm-isel mwyaf niferus yng nghefn gwlad Cymru gan fod bron dau o bob tri o'r tlodion gwledig yn 55 oed neu'n hyn. Yr oedd saith o bob deg teulu incwm-isel yn economaidd segur, a'r mwyafrif ohonynt wedi ymddeol. Er hynny, yr oedd chwarter y tlodion a oedd yn economaidd segur naill ai â salwch neu anabledd tymor-hir arnynt neu yr oeddent yn ddi-waith. Yr oedd rhyw dri o bob deg teulu tlawd yng nghefn gwlad Cymru mewn gwaith yn 2004, a'r mwyafrif llethol ohonynt mewn gwaith amser-llawn neu ran-amser. Câi'r tlodion a oedd yn gweithio eu gorgynrychioli mewn cwmnïau bach yn y sector preifat ac yn sectorau'r gwestai ac arlwyo, gweithgynhyrchu ac amaethyddiaeth, a sectorau cysylltiedig.

Perchen-feddianwyr oedd bron dau o bob tri o'r teuluoedd incwm-isel yng nghefn gwlad Cymru. Yr oedd un o bob pump yn rhentu yn y sector cymdeithasol ac 13% mewn llety preifat ar rent. Nid oedd gan ychydig yn llai nag un o bob tri o deuluoedd incwm-isel fynediad i gerbyd preifat a dywedodd 38% o'r ymatebwyr mewn teuluoedd incwm-isel fod salwch cyfyngus a hirhoedlog arnynt. Er bod y data ystadegol a ddarperir yn yr adroddiad hwn yn ei gwneud hi'n anodd amau bodolaeth tlodi yng nghefn gwlad Cymru, gwadu presenoldeb tlodi yn eu hardal leol wnaeth chwech o bob deg o'r ymatebwyr i'r arolwg o deuluoedd, ac ymhlith yr ymatebwyr incwm-isel y cafwyd y gyfran uchaf o ymatebwyr a wadai fod tlodi lleol yn bod.

O ran dimensiynau eraill ar allgáu cymdeithasol, mae darganfyddion yr ymchwil yn dangos i chwarter yr ymatebwyr ddweud bod rhywun yn eu teulu wedi cael trafferth sicrhau gwaith yn lleol, a chododd hynny i bron un o bob tri o'r ymatebwyr yn y teuluoedd incwm-isel. Yr oedd y prif broblemau cyflogaeth y cafwyd gwybod amdanynt yn ymwneud ag argaeledd ac addasrwydd swyddi lleol. Er bod gan ryw chwech o bob deg teulu yng nghefn gwlad Cymru gyfrifiadur personol â mynediad i'r Rhyngrwyd, syrthiodd y ffigur hwnnw i un o bob tri ymhlith y teuluoedd incwm-isel. Dywedodd y mwyafrif llethol o'r holl ymatebwyr a'r ymatebwyr mewn teuluoedd incwm-isel na chaent drafferth cael mynediad i dai a gwasanaethau eraill. Mae'n ymddangos mai deintyddfeydd, sinemâu, ysbytai cyffredinol a gorsafoedd heddlu yw'r gwasanaethau / cyfleusterau anoddaf i gael mynediad iddynt yng nghefn gwlad.

Er hynny, mae arolwg diweddar gan Arsyllfa Wledig Cymru o wasanaethau gwledig yng Nghymru yn dangos nad yw amrywiaeth o wasanaethau lles i grwpiau bregus fel y di-waith a'r digartref i'w cael yn y mwyafrif o gymunedau cefn gwlad.

Mae'r arolwg o deuluoedd yn tynnu sylw at y lefelau uchel o gyfalaf cymdeithasol a chymunedol ymhlith y trigolion tlawd, a'r rhai sydd heb fod yn dlawd, yng nghefn gwlad Cymru. Cyfeiriodd y mwyafrif llethol o'r ymatebwyr at fodolaeth cymunedau lleol cryf. Credent eu bod yn rhan o'u cymuned leol ac yr oeddent yn fodlon iawn ar ansawdd lleol bywyd. Er hynny, dywedodd rhyw un o bob pump o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo'n unig, ac ni theimlai 12% eu bod yn rhan o'u cymuned leol. Yr oedd y lefelau o gyfranogi dinesig hefyd yn uchel o'u cymharu â'r safonau cenedlaethol gan fod pedwar o bob deg teulu'n perthyn i grwpiau neu gymdeithasau lleol neu'n cymryd rhan yn eu gweithgareddau, ond yr oedd grwpiau incwm-isel yn llai tebyg o gymryd rhan yn y gweithgareddau lleol hynny.

Mae'r cyfweliadau â phobl mewn teuluoedd incwm-isel yng Ngwynedd a Sir Benfro wedi bod yn ffynhonnell gyfoethog o wybodaeth am brofiadau pobl sy'n byw ar incwm isel yng nghefn gwlad. Mae'r cyfweliadau hynny'n amlygu bodlonrwydd cyffredinol â byw yng nghefn gwlad ac ymwybyddiaeth gref o gynhwysiant cymdeithasol, yn ogystal â'r trafferthion sy'n gysylltiedig â chael mynediad i wasanaethau. Dangosant hefyd fod profiadau pobl ar incwm isel yn amrywio yn ôl eu hamgylchiadau personol a'r cyd-destun lleol. Er i'r mwyafrif o bobl a gymerodd ran yn y cyfweliadau gydnabod bod grwpiau incwm-isel i'w cael yn eu hardal, ni chredai'r mwyafrif fod eu safon byw eu hunain yn is nag un eu cymdogion. Credid mai'r di-waith oedd y grwp a oedd debycaf o fod ag incwm isel yn eu hardaloedd ac mai strwythur yr economi lleol oedd y prif ffactor a sicrhâi barhad tlodi lleol.

Yr oedd elfen olaf yr ymchwil yn ymwneud â gweithgareddau asiantaethau wrth daclo tlodi ac allgáu cymdeithasol yng nghefn gwlad Cymru. Mae tystiolaeth o'r cyfweliadau ag asiantaethau (lles) cenedlaethol ac awdurdodau lleol gwledig yn dangos bod amrywiaeth mawr o fentrau wedi'u datblygu dros y blynyddoedd diwethaf i ddelio â'r ffurfiau gwledig ar dlodi ac allgáu yng Nghymru. Mae rhai o'r mentrau hynny'n cysylltu â'r rhaglenni ehangach o gymorth cymdeithasol ac economaidd, fel Cymunedau'n Gyntaf, Gweithredu dros Gymunedau Gwledig, Amcan Un a Leader +,

neu raglenni datblygu economaidd ac adfywio yr awdurdodau lleol. Yr oedd eraill yn ymwneud yn fwy penodol â diwallu anghenion grwpiau penodol o bobl dlawd neu allgaeedig yng nghefn gwlad Cymru, a chanolbwyntiai eu mentrau ar gludiant, tai, iechyd, cyngor ynghylch lles, derbyn budd-daliadau, a grymuso cymunedau. Yr oedd bron pob un o'r mentrau'n cynnwys gweithio mewn partneriaeth a chydweithio rhwng y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol yn genedlaethol ac yn lleol.

Ar y cyfan, yr oedd yr asiantaethau a'r awdurdodau lleol yn gyffredinol gadarnhaol ynghylch effaith eu gwaith ar grwpiau incwm-isel ac allgaeedig, er mai prin oedd y rhai a allai gyfeirio at unrhyw arwydd mesuradwy o effaith mentrau penodol. Awgrymodd sawl un ei bod hi'n rhy gynnar i werthuso effaith prosiectau gwrth-dlodi a phrosiectau cynhwysiant cymdeithasol o gofio mai dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf y cawsai llawer ohonynt eu sefydlu. Cyfeiriodd cynrychiolwyr yr asiantaethau a'r awdurdodau lleol at bedair prif weithred a allai wella'r ddarpariaeth o wasanaethau lles i grwpiau tlawd ac allgaeedig yng nghefn gwlad, sef: cynyddu lefelau'r ariannu ac ariannu'n fwy hyblyg; datblygu polisïau mwy effeithiol i ddelio ag achosion strwythurol tlodi ac allgáu gwledig, yn enwedig o ran strwythurau economi cefn gwlad a thai cefn gwlad; cynyddu gweithio drwy bartneriaeth; a datblygu modelau o ddarpariaeth lles sy'n fwy sensitif i'r amodau yng nghefn gwlad.

**Cyfeiriadau**


Adran Gwaith a Phensiynau, Yr (2004) *Households Below Average Income 2002/03*, Llundain: The Stationery Office

Arsyllfa Wledig Cymru (2005) *Byw a Gweithio yng Nghefn Gwlad Cymru*, Caerdydd: Arsyllfa Wledig Cymru

Booth, C. (1889) *Labour and Life of the People,* Llundain: Williams and Northgate

Burchardt, T., Le Grand, J. a Piachaud, D. (1999) 'Social exclusion in Britain 1991-5', *Social Policy and Administration*, 33(2): 227-44

Chapman, P., Phimister, E., Shucksmith, M., Upward, R. a Vera-Toscano, E. (1998) *Poverty and Social Exclusion in Rural Britain: the dynamics of low income and employment*, Caerefrog: Sefydliad Joseph Rowntree

Cloke, P., Goodwin, M. a Milbourne, P. (1997) *Rural Wales: community and marginalisation*, Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

Cloke, P. a Milbourne, P. (2001) Poverty, social exclusion and rural space: making connections. Paper presented to the annual meeting of the Association of American Geographers, New York.

Cloke, P., Milbourne, P. a Thomas, C. (1994) *Lifestyles in Rural England*, Llundain: Y Comisiwn Datblygu Gwledig

Cloke, P., Milbourne, P. a Widdowfield, R. (2002) *Rural Homelessness: issues, experiences and policy responses*, Bryste: The Policy Press

Dunn, J., Hodge, I., Monk, S. a Kiddle, C. (1998) *Developing Indicators of Rural Disadvantage*, Llundain: Y Comisiwn Datblygu Gwledig

Furlong, A. a Cartmel, F. (1997) *Young People and Social Change: individualisation and risk in late modernity*, Milton Keynes: Gwasg y Brifysgol Agored

Gordon, D., Adelman, L., Ashworth, K., Bradshaw, J., Levitas, R., Middleton, S., Pantazis, C., Patsios, D., Payne, S., Townsend, P. a Williams, J. (2000) *Poverty and Social Exclusion in Britain*, Caerefrog: Sefydliad Joseph Rowntree

Harrop, A. a Palmer, G. (2002) *Indicators of Poverty and Social Exclusion in England: 2002*, Llundain: New Policy Institute

Mack, J. a Lansley, S. (1985) *Poor Britain*, Llundain: Allen & Unwin

McLaughlin, B. (1986) 'The rhetoric and reality of rural deprivation', *Journal of Rural Studies*, 2: 291-307

Milbourne, P. (2004) *Rural Poverty: marginalisation and exclusion in Britain and the United States*, Llundain: Routledge

Milbourne, P., Edwards, B., Orford, S. a Hughes, R. (2005) *The Role of the Housing System in Rural Wales*, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru

Pavis, S., Platt, S., a Hubbard, G. (2000) *Social Exclusion and Young People in Rural Scotland*, Caerefrog: Sefydliad Joseph Rowntree

Percy-Smith, J. (2000) *Policy Responses to Social Exclusion: towards inclusion?*, Buckingham: Gwasg y Brifysgol Agored

Room, G. (1995) (gol.) *Beyond the Threshold: the measurement and analysis of social exclusion*, Bryste: Policy Press

Rugg, J. a Jones, A. (1999) *Getting a Job, Finding a Home: rural youth transitions*, Bryste: The Policy Press / Sefydliad Joseph Rowntree

Shucksmith, M., Chapman, P., Clark, G. gyda Black, S. a Conway, E. (1996) *Rural Scotland Today: the best of both worlds*, Avebury: Aldershot

Silver, H. (1994) *Social Exclusion and Social Solidarity: three paradigms*, ILS Discussion Papers, No. 69, Geneva: IILS

Storey, P. a Brannen, J. (2000) *Young People and Transport in Rural Areas* Caerefrog: Sefydliad Joseph Rowntree

Townsend, P. (1979) *Poverty in the United Kingdom*, Harmondsworth: Penguin

Walker, A. a Walker, C. (1997) *Britain Divided: the growth of social exclusion in the 1980s and 1990s*, Llundain: CPAG

## ATODIAD 1: PATRWM CYFWELD YR ASIANTAETHAU

***Arsyllfa Wledig Cymru sy'n gwneud y prosiect ymchwil mawr hwn ar dlodi ac allgáu cymdeithasol yn ardaloedd cefn gwlad Cymru. Ariannir yr Arsyllfa gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i wneud ymchwil i faterion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yng nghefn gwlad Cymru, a'u dadansoddi. Yn ogystal â chasglu deunydd am deuluoedd incwm-isel mewn gwahanol rannau o gefn gwlad Cymru, yr ydym yn cynnal cyfres o gyfweliadau â rhanddeiliaid cenedlaethol a lleol.***

***Rhennir patrwm y cyfweliad yn ddwy: mae'r gyntaf yn ymwneud â'ch asesiad chi o natur tlodi ac allgáu cymdeithasol gwledig yng nghefn gwlad, a'r ail yn ystyried ymatebion asiantaethau i dlodi ac allgáu yng nghefn gwlad. Caiff eich ymateb i bob cwestiwn ei drin yn gyfrinachol ac ni roir enw unrhyw unigolyn na sefydliad wrth unrhyw ddeunydd a ddefnyddir yn yr adroddiad a gaiff ei gyhoeddi.***

1. I ddechrau, a allech chi sôn ychydig wrthyf am natur eich sefydliad / asiantaeth / adran o ran ei brif amcanion/ei phrif amcanion a'i feysydd/meysydd gwaith a hefyd eich swydd eich hun ynddo/ynddi?

**<u>Graddfa a natur tlodi ac allgáu cymdeithasol yng nghefn gwlad</u>**

2. Beth yw'ch asesiad o brif gydrannau / nodweddion tlodi yng nghefn gwlad / yn eich ardal chi?
3. Sut, yn eich barn chi, y mae ffurfiau gwledig ar **<u>dlodi</u>** / y ffurfiau ar dlodi yn eich ardal chi yn cymharu â'r mathau o dlodi sydd i'w cael yn ardaloedd trefol Cymru? (yn debyg / yn wahanol – ym mha ffyrdd y maen nhw'n wahanol?)
4. A gaiff **<u>tlodi</u>** fwy o effaith ar rai grwpiau o bobl nag ar eraill yng nghefn gwlad / yn eich ardal chi?
5. Ac a ydych chi'n credu bod **<u>tlodi</u>** yn cael mwy neu lai yr un effaith ledled cefn gwlad Cymru / eich ardal chi, neu a yw'n effeithio'n fwy ar rai ardaloedd daearyddol penodol na'i gilydd?
6. Beth, yn eich barn chi, yw'r prif ffactorau sy'n achosi **<u>tlodi</u>** yng nghefn gwlad / yn eich ardal chi?
7. Ym mha ffyrdd y mae graddfa a natur **<u>tlodi</u>** yng nghefn gwlad / yn eich ardal chi wedi newid dros y 10 mlynedd diwethaf?
8. Ym maes polisi, mae llawer o drafod wedi bod dros y blynyddoedd diwethaf ar y cysyniad o allgáu cymdeithasol. Beth yw ystyr y term hwnnw i chi ac ym mha ffyrdd y credwch chi ei fod yn debyg neu'n wahanol i dlodi?
   *(mae pedair cydran i'n diffiniad ni o allgáu cymdeithasol, sef tlodi, allgáu o farchnadoedd llafur, allgáu o fynediad i dai a gwasanaethau; ac allgáu o strwythurau cymdeithasol a chymunedol)*
9. Ydych chi'n teimlo bod y cysyniad o **<u>allgáu cymdeithasol</u>** yn fwy neu'n llai defnyddiol na'r cysyniad o dlodi wrth ddisgrifio / esbonio problemau yng nghefn gwlad / yn eich ardal chi?
10. Beth, yn eich barn chi, yw prif gydrannau / nodweddion **<u>allgáu cymdeithasol</u>** yng nghefn gwlad / yn eich ardal chi?
11. Sut, yn eich barn chi, y mae'r ffurfiau ar **<u>allgáu cymdeithasol</u>** yn eich ardal chi yn cymharu â'r mathau o allgáu cymdeithasol sydd i'w cael yn ardaloedd trefol Cymru? (yn debyg / yn wahanol – ym mha ffyrdd y maen nhw'n wahanol?)
12. A gaiff **<u>allgáu cymdeithasol</u>** fwy o effaith ar rai grwpiau o bobl nag ar eraill yng nghefn gwlad / yn eich ardal chi?
13. Ac a ydych chi'n credu bod **<u>allgáu cymdeithasol</u>** yn cael mwy neu lai yr un effaith ledled cefn gwlad Cymru / eich ardal chi, neu a yw'n effeithio'n fwy ar rai ardaloedd daearyddol na'i gilydd?

14. Beth yn eich barn chi yw'r prif ffactorau sy'n achosi **<u>allgáu cymdeithasol</u>** yng nghefn gwlad / yn eich ardal chi?
15. Ym mha ffyrdd y mae graddfa a natur **<u>allgáu cymdeithasol</u>** yng nghefn gwlad / yn eich ardal chi wedi newid dros y 10 mlynedd diwethaf?

**<u>Ymateb i dlodi ac allgáu cymdeithasol yng nghefn gwlad</u>**

16. Pa gamau sydd wedi'u cymryd gan eich sefydliad / adran chi i daclo tlodi ac allgáu cymdeithasol yng nghefn gwlad / yn eich ardal chi? (mathau o bolisi / gwasanaeth a lleoliadau)
17. (Awdurdodau lleol yn unig) A ydych chi'n gweithio gydag adrannau eraill yn yr awdurdod i daclo materion tlodi ac allgáu cymdeithasol? (manylion yr adrannau, mathau o gamau)?
18. Pa fath o sefydliadau eraill yr ydych chi wedi gweithio gyda hwy i daclo tlodi ac allgáu cymdeithasol yng nghefn gwlad / yn eich ardal chi? (manylion y sefydliadau, mathau o gamau)
19. Pa mor llwyddiannus, yn eich barn chi, y mae'r camau hynny wedi bod wrth daclo tlodi ac allgáu cymdeithasol yng nghefn gwlad / yn eich ardal chi?
20. Pa wasanaethau sy'n cael eu darparu i'r bobl sydd mewn tlodi neu'n cael eu hallgáu'n gymdeithasol? (manylion, lleoliad)
21. Pa gamau pellach y mae angen eu cymryd i ddelio â thlodi ac allgáu cymdeithasol yng nghefn gwlad / yn eich ardal chi yn fwy effeithiol?
22. A yw'ch sefydliad / adran / awdurdod wedi cynhyrchu unrhyw adroddiadau ar dlodi ac allgáu cymdeithasol y teimlwch y dylen ni ymgynghori â nhw? Sut mae cael gafael ar y deunydd hwnnw?
23. Yn olaf, a oes unrhyw faterion eraill ynghylch tlodi ac allgáu cymdeithasol yng nghefn gwlad / yn eich ardal chi nad ydyn ni wedi rhoi sylw iddyn nhw ond yr hoffech chi eu codi?

## ATODIAD 2: PATRWM CYFWELD TEULUOEDD INCWM-ISEL

***Newid yn amgylchiadau'r teulu***

1. **Mae hi'n rhyw flwyddyn erbyn hyn ers i ni wneud y cyfweliad cyntaf â chi. Ym mha ffordd, os o gwbl, y mae'ch amgylchiadau chi wedi newid ers i ni siarad â chi ddiwethaf? (awgrymwch, er enghraifft: wedi symud ty, newidiadau yn y bobl sy'n byw gyda chi; newid yn eich gwaith, eich iechyd)**

***Y gymdogaeth / gymuned leol***

2. **Allech chi sôn ychydig wrthyf am y lle'r ydych chi'n byw ynddo? (awgrymwch: enw, lleoliad)**
3. **Beth yw'r prif bethau rydych chi'n eu hoffi ynghylch byw yn eich ardal leol? (diffiniwch yr ardal leol – o fewn dwy filltir i'w cartref)**
4. **A beth yw'r prif bethau dydych chi ddim yn eu hoffi am fyw yn eich ardal leol?**
5. **A fyddech chi'n dweud bod teimlad o 'gymuned' yn eich ardal leol? (awgrymwch fod angen rhoi rhesymau)**
6. **(Os byddech chi) Ac a ydych chi'n teimlo eich bod chi'n rhan o'r gymuned leol / yn perthyn iddi? (awgrymwch fod angen rhoi rhesymau dros berthyn / dros beidio â pherthyn)**
7. **Sut y byddwch chi fel rheol yn darganfod beth sy'n digwydd yn eich ardal leol?**
8. **Dros y 12 mis diwethaf, a ydych chi wedi cael unrhyw broblemau sy'n gysylltiedig â byw yn eich ardal leol? (awgrymwch fod angen enwi'r mathau o broblem – cymdogion, cael at wasanaethau, dod o hyd i le i fyw, ac ati)**

***Y teulu***

9. **Dros y 12 mis diwethaf, a ydych chi wedi cael unrhyw broblemau gyda'ch cartref / llety? (yr amodau, sicrhau bod atgyweiriadau'n cael eu gwneud, talu costau tai)**
10. **A fyddwch chi'n cael trafferth cael mynediad i wasanaethau penodol (fel siopau, cyfleusterau hamdden, cyngor, gwasanaethau meddygol (meddyg, deintydd, ysbyty), gofal plant, cymorth cartref, ac ati)?**
11. **A ydych chi wedi cael prynhawn neu noson allan yn ystod y pythefnos diwethaf i gael adloniant, rhywbeth sy'n costio arian? (awgrymwch fod angen iddynt ddweud beth wnaethon nhw neu eu rhesymau dros beidio â chael prynhawn/noson allan)**
12. **I ble y byddech chi'n mynd os byddai angen i chi gael cyngor ynglyn â'ch hawliau a'r hyn y mae gennych hawl i'w gael? (e.e. budd-daliadau, cyngor cyfreithiol, gwaith) (pa bobl, sefydliadau; faint o amser y mae'n ei gymryd i gyrraedd yno; problemau mynediad)**

13. **O gymharu safon byw eich teulu chi â safon byw teuluoedd eraill sy'n byw yn yr ardal leol, a fyddech chi'n dweud eich bod chi'n well eich byd na'r rhan fwyaf ohonyn nhw, yn waeth eich byd neu tua'r un fath â'r rhan fwyaf o'r lleill? (defnyddiwch y cod ac awgrymwch fod angen rhoi rhesymau)**
    Yn well eich byd o dipyn na'r rhan fwyaf o'r lleill
    Ychydig yn well eich byd na'r rhan fwyaf o'r lleill
    Tua'r un fath â'r rhan fwyaf o'r lleill
    Ychydig yn waeth na'r rhan fwyaf o'r lleill
    Yn waeth o lawer na'r rhan fwyaf o'r lleill
    Yn well fy myd na rhai ond yn waeth nag eraill
    Wn i ddim

14. **Ac a fyddech chi'n dweud bod safon byw'ch teulu wedi newid neu wedi aros tua'r un fath dros y 12 mis diwethaf?**

Byddwn – wedi gwella (awgrymwch fod angen nodi'r achosion)
Byddwn – wedi gwaethygu (awgrymwch fod angen nodi'r achosion)
Na fyddwn – mae hi wedi aros tua'r un fath

**15. Ar y cyfan, sut mae'ch iechyd? Fyddech chi'n dweud …**
Rhagorol
Da iawn
Da
Gweddol
Gwael

***<u>Incwm isel yn yr ardal leol</u>***

**16. A fyddech chi'n dweud bod pobl sy'n byw ar incwm isel yn yr ardal hon? (pawb, y rhan fwyaf, rhai o'r bobl) (awgrymwch fod angen dweud pa grwpiau)** ***Os na fyddai, ewch i gwestiwn 20***
**17. (Os byddai) Beth, yn eich barn chi, yw'r prif resymau y mae'r bobl hynny'n byw ar incwm isel?**
**18. (Os byddai) Pa mor hawdd yw hi i bobl ar incwm isel fyw yn yr ardal hon? (awgrymwch fod angen rhoi rhesymau)**
**19. Ym mha ffyrdd, os oes yr un, y credwch chi y byddai'n bosibl gwella ansawdd bywyd pobl sy'n byw ar incwm isel yn yr ardal hon?**
**20. Yn olaf, a oes unrhyw beth arall yr hoffech chi ei ychwanegu at eich disgrifiad o fyw yn eich ardal leol chi?**